Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
24/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
31/03/2022

Gwerthusiad o Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-802-0

Gwerthusiad o Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar
Adroddiad Terfynol

Geof Andrews, Tom Bajjada, Kerry KilBride, / Miller Research (UK) Ltd.
Meurig Roberts

Adroddiad ymchwil llawn: Andrews, G., Bajjada, T., KilBride, K. and Roberts, M. (2022). *Gwerthusiad o Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad YGLI 24/2022.
Ar gael ar: https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-trawsnewid-ac-integreiddio-blynyddoedd-cynnar

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Launa Anderson
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Crynodeb i

Casgliadau vi

Argymhellion viii

1. Cyflwyniad a chefndir 1

2. Methodoleg 5

Gwerthuso Realyddol 5

Camau'r Gwerthusiad 6

3. Gweledigaeth integreiddio Blynyddoedd Cynnar 9

Creu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer integreiddio Blynyddoedd Cynnar 9

Deall nodau ac amcanion y rhaglen integreiddio 10

Graddau integreiddio o fewn gwahanol ardaloedd braenaru 16

Ffactorau sy'n dylanwadu ar ymrymiad i weledigaeth integredig a dealltwriaeth gyffredin 18

4. Theori'r rhaglen 20

Bodolaeth theori glir i'r rhaglen 20

Mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth o integreiddio blynyddoedd cynnar 21

Tybiaethau am y broses fraenaru 23

5. Gweithredu'r Rhaglen hyd yma 26

Y rhaglen ar waith o gymharu â'i nodau ac amcanion gwreiddiol 26

Sail resymegol dros newidiadau 29

Cydnawsedd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru 32

Dulliau amlasiantaethol effeithiol 36

Trefnu gwasanaethau 38

Llywodraethu a chydweithio 38

Dysgu ar y cyd ymysg braenarwyr 39

Newid a hwylusir gan y rhaglen 40

Rhannu'r arferion gorau 40

Systemau monitro 41

Rôl yr arweinydd prosiect 41

6. Arwyddion cynnar o lwyddiant 44

Cynaliadwyedd 49

7. Casgliadau 51
8. Argymhellion 53
Cyd-destun y rhaglen gyfan 53
Argymhellion ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ardaloedd braenaru penodol 56

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad
Allgymorth	Elfen allweddol o'r rhaglen Dechrau'n Deg sy'n caniatáu i awdurdodau lleol weithredu gradd o hyblygrwydd o fewn y rhaglen. Gellir cyflwyno gwasanaethau Dechrau'n Deg trwy elfen Allgymorth y rhaglen i blant a theuluoedd ag anghenion dwys sy'n byw y tu allan i ardaloedd cydnabyddedig Dechrau'n Deg.
Ariannu Hyblyg	Datblygwyd gan Lywodraeth Cymru i alluogi saith o awdurdodau lleol y cynllun braenaru i fabwysiadu ffordd fwy strategol o gyflwyno ymyrraeth, atal a chymorth cynnar, trwy gael hyblygrwydd llawn ar draws deg o raglenni presennol Llywodraeth Cymru, a gyfunwyd o dan un grant mewn dull peilot.
Asesiad Sgiliau Twf *(Schedule of Growing Skills - SoGS)*	Dull o fesur datblygiad plant trwy asesu naw maes allweddol: Osgo Goddefol, Osgo Gweithredol, Ymsymudol, Llawdrin, Gweledol, Clyw ac Iaith, Lleferydd ac Iaith, Cymdeithasol Rhyngweithiol a Chymdeithasol Hunan-Ofal.
Asesiadau lleferydd ac iaith WellComm	Pecyn cymorth a luniwyd i helpu lleoliadau blynyddoedd cynnar i adnabod plant rhwng chwe mis a chwe mlwydd oed sydd ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.
Braenarwyr / Ardaloedd Braenaru	Y termau a ddefnyddir i ddisgrifio'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Sefydlwyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'u bwriad yw gwella gweithio ar y cyd rhwng yr holl wasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.
Dull Vanguard	Rhaglen wedi ei hwyluso yw Dull Vanguard sy'n rhoi'r modd i astudio sefydliadau gwasanaethau fel systemau. Mae'r wybodaeth sy'n mynd trwy

	broses Vanguard yn arwain at ddewisiadau gwybodus ar gyfer ailgynllunio sefydliadau fel systemau.
Gweithio mewn seilo	Timau neu adrannau yn gweithio tuag at yr un amcanion, yn aml mewn agos at ei gilydd, ond heb fod yn rhannu gwybodaeth.
Gwerthuso Realyddol	Dull damcaniaethol o werthuso sy'n cynnig ffyrdd o ymdrin â sut, pa bryd, pam a lle mae rhaglen neu ymyrraeth yn gweithio neu beidio trwy gynhyrchu theori esboniadol ar gyfer y rhaglen.
Matrics Aeddfedrwydd Blynyddoedd Cynnar y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar	Dull hunan-asesu i gefnogi dull system gyfan o wella canlyniadau i blant yn y blynyddoedd cynnar sydd wedi cael ei ddatblygu gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar *(Early Intervention Foundation)*.
Offeryn a Dull Asesu Cydnerthedd Teuluoedd (FRAIT)	Adnodd a gyflwynwyd fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru sy'n helpu ymwelwyr iechyd i wneud asesiadau cadarn, cyson a dibynadwy o gydnerthedd teuluoedd wrth benderfynu ar eu hanghenion o ran cymorth.
Rhaglen Dechrau'n Deg	Rhaglen blynyddoedd cynnar wedi ei thargedu ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.
Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar	Rhaglen gyd-awduro sy'n ymwneud â naw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y cynllun braenaru. Nod y rhaglen yw profi dull mwy cydlynus, integredig a phenodol o ymdrin â'r blynyddoedd cynnar, er mwyn sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
Rhaglen Plant Iach Cymru	Rhaglen iechyd gyffredinol i bob plentyn hyd at 7 oed sy'n pennu'r cysylltiadau y dylai plant a theuluoedd eu derbyn gan ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill iechyd, o'r adeg trosglwyddo o wasanaeth mamolaeth at y blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol.
Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf	Rhaglen wedi ei thargedu ar gyfer teuluoedd sydd â phlant 0-25 oed, ac iddi'r nod o wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cymorth i deuluoedd awdurdodau lleol eu llunio a'u cyflwyno, trwy gynnig cymorth sy'n darparu ar gyfer teuluoedd

	cyfain, yn hytrach nag unigolion o fewn teuluoedd a thrwy gydgysylltu'r sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd fel bod teuluoedd yn derbyn cymorth cydgysylltiedig.
System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	System sengl a chofnod electronig a rennir, ac iddi'r bwriad o alluogi staff iechyd a gofal cymdeithasol i gyflwyno gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol.
Y Cyfnod Sylfaen	Cwricwlwm datblygiadol yw'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i saith oed yng Nghymru. Mae'n annog plant i fod yn greadigol, dychmygus ac i gael hwyl wrth wneud dysgu yn fwy effeithiol.
Y Grant Plant a Chymunedau	Grant cyllid hyblyg sy'n dod â saith o raglenni presennol Llywodraeth Cymru at ei gilydd ac sy'n darparu cyllid i awdurdodau lleol weithredu'r 7 rhaglen ymyrryd ac atal buan o fewn y grant. Mae'r dull cyllid hyblyg yn annog awdurdodau lleol i gysoni eu gwasanaethau'n strategol ar lefel leol i ddiwallu anghenion lleol.
Y Gronfa Datblygiad Plant	Grant gan Lywodraeth Cymru i rhoi cymorth ychwanegol i blant o dan 5 i ymdrin â phryderon ynghylch oedi mewn datblygiad o ganlyniad i gyfyngiadau pandemig y Coronafeirws (COVID-19).

Crynodeb

- Mae gan Lywodraeth Cymru hanes hir o gydweithio ag Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a'r trydydd sector i gyflwyno amrywiaeth o raglenni blynyddoedd cynnar er mwyn gwella'r modd y darperir gwasanaethau i deuluoedd.
- Mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar[1] wedi ei llunio i fanteisio i'r eithaf ar fuddion y rhaglenni hyn trwy gydgysylltu dull mwy cyson o weithredu. Wrth gydnabod yr amrywiaethau mewn cyd-destunau lleol, mae naw Bwrdd Iechyd Cyhoeddus wedi ymrwymo i fod yn fraenarwyr, neu ardaloedd braenaru, i ddatblygu a threialu ffyrdd integredig o weithio.
- Mae gweledigaeth o integreiddio i'w gweld ym mhob un o'r ardaloedd braenaru. Ar y lefel uchaf, mae'r gwahanol weledigaethau yn rhannu elfennau cyffredin, gan gynnwys yr anghenraid mai angen yw ysgogydd allweddol gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Mae ymwybyddiaeth lawn o'r gweledigaethau hyn, ac o'r rhaglen gyffredinol, gan staff gweithredol yn gyffredinol gyfyngedig, gyda'u gwybodaeth wedi'i gyfyngu i'w gwaith eu hunain yn unig mewn cynlluniau peilot penodol.
- Mae ymdrechion a wnaed yn gynnar i greu gweledigaeth ar gyfer ardal fraenaru wedi bod yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, wrth atal rhwystrau diweddarach i'w gwaith fel a brofwyd gan ardaloedd braenaru eraill, ac wedi rhoi mwy o ddyfnder a pherchnogaeth i weledigaeth nag mewn lleoedd eraill. Mae'r broses o greu gweledigaeth yn ddibynnol ar brofiad ac ar brofiad sefydliadol y cydgysylltydd integreiddio.
- Gall creu a pherchnogi gweledigaeth gael ei rwystro gan wahanol flaenoriaethau ymysg partneriaid rhaglenni a phryder ynghylch natur tymor byr y rhaglen. Ar y llaw arall, lle bo rhaglenni blaenorol wedi gadael gwaddol o feddwl integredig, mae hyn wedi helpu

[1] Cyfeirir ati fel y 'rhaglen integreiddio' neu'n syml, 'y rhaglen' drwy'r adroddiad hwn.

gweledigaethau ar gyfer integreiddio. Mae gweledigaeth a strategaeth ar lefel ranbarthol yn well pan fo sawl ardal fraenaru yn bresennol o fewn ardal bwrdd iechyd.

- Mae dealltwriaeth dda o nodau ac amcanion y rhaglen ymysg yr holl randdeiliaid. Caiff y rhaglen ei gweld i raddau helaeth fel mecanwaith ar gyfer rhesymoli'r cyllid presennol yn y sector blynyddoedd cynnar ac i fynd i'r afael â gwendidau canfyddedig mewn rhaglenni presennol, gan hefyd adeiladu ar eu cryfderau clodwiw i gyflawni ymyrraeth ac atal cynnar. Mae'r braenarwyr yn deall yn llawn eu bod yn treialu dulliau newydd mewn systemau blynyddoedd cynnar, gan brofi ymdrechion o ddatblygu ar y cyd ar sail cyd-destunau lleol.
- Wrth ddefnyddio disgrifyddion Matrics Aeddfedrwydd y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar, mae'r braenarwyr eu hunain yn cydnabod mai yng nghamau cyntaf intregreiddio y maent, ar y gorau, a bod cymryd rhan yn y rhaglen integreiddio yn amlygu hyn. Mewn rhai ardaloedd mae bylchau yn parhau, gyda braenarwyr yn ystyried ffyrdd o gynnwys rhanddeiliaid allweddol, megis bydwreigiaeth ac ysgolion yn y weledigaeth a'r broses o integreiddio.
- Er gwaethaf sesiynau cychwynnol gan Lywodraeth Cymru ar gychwyn y rhaglen yn amlinellu diben y rhaglen a darparu cymorth, ni ddaeth theori glir o'r rhaglen i'r amlwg trwy gyfweliadau gyda'r braenarwyr. Mae cyfeiriad a chwmpas gweithgarwch wedi cael ei arwain gan dystiolaeth. Mae'r dystiolaeth hon wedi dod o gwmpasu cychwynnol a mapio a gyflawnwyd yn gynnar yn y broses. Mae gweithgareddau ffurfiol megis proses Vanguard wedi bod yn llwyddiannus wrth adnabod yr 'anhysbys anhysbys' ac wedi helpu i oresgyn tybiaethau blaenorol ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflwyno. Mae tybiaethau a heriwyd gan y rhaglen yn cynnwys costau uwch, ofnau am deuluoedd ar eu colled yn sgil newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol, a bod dulliau gweithio mewn seilo gan wasanaethau wedi ymwreiddio'n rhy ddwfn i'w goresgyn. Mae tybiaethau a brofwyd i fod yn gywir yn cynnwys bod angen y tu allan i ddarpariaeth bresennol blynyddoedd

cynnar ac y bydd ‘newid system gyfan’ yn gofyn am ymrwymiad hirdymor gan randdeiliaid.

- Mae cynnydd wedi cael ei wneud tuag at y nodau a’r amcanion gyda chamau ymarferol yn cael eu cymryd gan ardaloedd braenaru i gydgysylltu gwasanaethau. Yr elfennau allweddol sy’n rhan o hyn yw Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, a Rhaglen Plant Iach Cymru, gyda’u terminoleg yn gyfarwydd drwy’r sector blynyddoedd cynnar.
- Gan fod y rhaglenni blynyddoedd cynnar unigol yn dal i fod yn wahanol i’w gilydd, mae’n feichus adrodd yr un wybodaeth sawl gwaith neu gyfeirio gweithgarwch y rhaglen integreiddio i raglen ddarparu arall. Mae cynlluniau peilot yn amrywio mewn maint, ond maent i gyd yn ceisio ymestyn gwasanaethau i ddiwallu anghenion a adnabuwyd.
- Caiff cydleoli ei weld fel ffordd o weithio i’w ddefnyddio gan rai ardaloedd braenaru ac mae hyn wedi cael ei atal gan y pandemig Coronafeirws (COVID-19). Nid yw ardaloedd braenaru gwledig sydd â dwysedd poblogaeth is yn bwriadu cydleoli. Yn yr achosion hyn, caiff cyfathrebu o bell neu ffisegol ei gynllunio i dynnu gwasanaethau ynghyd.
- Mae’r bwlch mwyaf yn y sector blynyddoedd cynnar rhwng gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a gwasanaethau a ddarperir gan fyrddau iechyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Lle bo amryw o ardaloedd braenaru o fewn yr un rhanbarth bwrdd iechyd mae graddau uwch o ddatblygu ar y cyd sy’n cynnwys rhanddeiliaid iechyd ac awdurdodau lleol ar draws holl ardaloedd braenaru’r rhanbarth. Mae mwy o debygrwydd rhwng y modelau peilot yn yr ardaloedd braenaru hyn nag mewn achosion eraill. Lle bo un awdurdod lleol sengl yn gyrru integreiddio, mae cydweithrediad uwch-swyddogion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn fwy cyfyngedig. Mae awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o’r daith at integreiddio ar hyn o bryd yn bryderus y bydd mwy o ymrwymiad gan y Gwasanaeth Iechyd i ddull integreiddio yn arwain at fodel yn cael eu gorfodi arnynt heb ystyried eu cyd-destunau eu hunain. Mae gwahanol ddulliau, neu wahanol raddau, o integreiddio ar

lefel awdurdod lleol yn achosi problemau i fyrddau iechyd y Gwasanaeth Iechyd gan ei bod yn well ganddynt yn gyffredinol weithredu ar sail ranbarthol.

- Mae graddau'r rhan a chwaraeir gan y gwasanaethau iechyd yn allweddol. Mae wedi dylanwadu ar fabwysiadu systemau TG penodol ar gyfer rhannu gwybodaeth. O ganlyniad i drefniadau ymweliadau Rhaglen Plant Iach Cymru a Dechrau'n Deg, ymwelwyr iechyd sy'n cynnig y pwynt mwyaf hygyrch at wasanaethau atgyfeirio, ac mae hyn wedi cael ei ddefnyddio gan sawl cynllun peilot. Mae rhai ardaloedd braenaru wedi defnyddio'r rhaglen fel cyfle i integreiddio timau Dechrau'n Deg a thimau ymwelwyr iechyd cyffredinol. Mae eraill wedi defnyddio'r cyllid grant i ddarparu staff ychwanegol mewn ardaloedd peilot i gynyddu capasiti. Lle nad oes ailddyrannu llwythi achosion ymwelwyr iechyd wedi digwydd, mae ymwelwyr iechyd cyffredinol wedi ei chael yn anodd wrth iddynt geisio darparu gwell gwasanaethau i ardaloedd peilot yn ogystal â gwasanaethau arferol y tu allan i ardal y peilot. Natur dros-dro y cyllid oedd y prif ffactor i rai i beidio ag ailddyrannu llwythi achosion.
- Mae amser cyfyngedig y cyfnodau ariannu wedi effeithio ar staff eraill yn yr ardaloedd braenaru gan na ellir hysbysebu swyddi fel rhai parhaol. Nid yw swyddi dros dro yn denu staff profiadol ac mewn llawer o gynlluniau peilot yr unig ffordd maent wedi cael eu llenwi yw trwy secondio, sydd wedi arwain at broblemau mewn cadw unigolion.
- Mae camau gweithredu'r ardaloedd braenaru yn gydnaws â blaenoriaethau a rhaglenni Llywodraeth Cymru y mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Rhaglen Plant Iach Cymru
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau'n Deg
- Cymru Iachach
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

- Mae braenarwyr yn teimlo fod diffyg canllawiau o ran y ffordd orau i gysylltu'r rhaglenni presennol â'i gilydd. Mae hyn wedi arwain at ddryswch lle bo croesi rhwng rhaglenni a'i gilydd.
- Mewn rhai achosion, mae dulliau amlasiantaeth effeithiol wedi cael eu creu, diolch i ymdrechion dygn i sicrhau cyfathrebu ac ymrwymiad ar lefel uwch. Mae'r dulliau mwyaf datblygedig yn ymwneud ag iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), gwasanaethau cymdeithasol, tai, addysg, gofal plant a'r sector gwirfoddol. Mae gweithio gyda'i gilydd wedi cynyddu dealltwriaeth o derminoleg a blaenoriaethau pob asiantaeth. Nid yw hyn yn systematig eto, gan eu bod yn dibynnu ar gysylltiadau unigol sydd wedi ehangu'n helaeth, diolch i'r rhaglen integreiddio. Mae hyn yn gadael lefel o risg i gydweithredu yn sgil trosiant staff.
- Mae newid sefydliadol ar lefel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dal i fod yng nghamau cynnar ei ddatblygiad, sy'n golygu na chofnodwyd fawr o effaith hyd yma mewn cydgysylltu, cynllunio, a chomisiynu ar draws Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyfan. Nid yw strwythurau llywodraethu yn cael eu gweld fel rhai effeithiol hyd yma, mewn rhai achosion nid yw rhanddeiliaid gweithredol yn ymwybodol o'r strwythurau yn eu hardal fraenaru. Mae dysgu ar y cyd rhwng braenarwyr wedi bod yn gyfyngedig hyd yma yn sgil y cyd-destunau amrywiol maent yn gweithio o'u mewn, sy'n ei gwneud yn anodd, ar y cam cynnar hwn, i benderfynu i ba raddau y gall yr ardaloedd braenaru fod yn esiampl i'w gilydd.
- Er eu bod yn elfen hanfodol, nid yw'r cydgysylltwyr prosiectau a gyllidir gan y rhaglen mewn safle digon uchel mewn unrhyw ardal fraenaru. Mae'r safle allweddol ar gyfer gyrru integreiddio yn ei flaen wedi gorwedd hyd yma gyda rhanddeiliaid mwy blaenllaw. Mewn rhai achosion, eu gyriant unigol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd, nid newid sefydliadol. Gobeithir bod hyn oherwydd bod y rhaglen yn y camau cynnar ac y bydd y broses integreiddio yn llai dibynnol arnynt wrth iddi symud ymlaen.

- Mae amrywiol ddangosyddion o lwyddiant y rhaglen yn dechrau dod i'r amlwg:
- Mae cynnydd wedi cael ei wneud wrth gydgrynhoi rhai gwasanaethau.
- Mae effeithlonrwydd yn dechrau cael ei weld gyda lefelau is o ddyblygu ar draws gwasanaethau. Disgwylir mwy o weithredu effeithlonrwydd yn y dyfodol.
- Mae newidiadau wedi bod mewn gwasanaethau sydd wedi cael effaith cadarnhaol ar deuluoedd.
- Mae bylchau mewn gwasanaethau wedi cael eu hadnabod a'u lleihau.
- Mae llwybrau atgyfeirio wedi eu symleiddio mewn rhai ardaloedd braenaru gyda mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau i staff a theuluoedd yn arwain at effeithlonrwydd.
- Mae mwy o ddealltwriaeth fel ardaloedd peilot o anghenion a gofynion teuluoedd.
- Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud gan rai braenarwyr ar gyfer newid parhaol i gwmpasu, llunio a gweithredu ar lefel strategol.
- Mae cynaliadwyedd y newidiadau a'r llwyddiannau hyd yma yn ansicr. Mae hyder ymysg rhanddeiliaid y bydd cysylltiadau proffesiynol a alluogwyd gan weithgarwch y cynlluniau peilot yn parhau, fodd bynnag bydd swyddi sy'n dibynnu ar gyllid yn dod i ben ar ôl y rhaglen. Mae gwneud gwelliannau'n gynaliadwy yn rhywbeth i'r ardaloedd braenaru ganolbwyntio arno, ond mae barn gan rai rhanddeiliaid y bydd hyn yn golygu buddsoddiad sylweddol gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn ei gyflawni.

Casgliadau

- Ar gam cynnar mewn integreiddio mae pob ardal fraenaru, hyd yn oed y rhai mwyaf datblygedig.
- Gorau po gyntaf y caiff gweledigaeth ei chreu ac mae angen cymryd golwg feirniadol o'r darparu presennol a chynnwys amrywiaeth helaeth o randdeiliaid blaenllaw.

- Mae ymrwymiad rhanddeiliaid yn cystadu â thargedau a blaenoriaethau eraill o fewn ardaloedd braenaru.
- Mae'r cydgysylltydd braenaru yn chwarae rhan bwysig mewn goresgyn rhwystrau.
- Mae profiad blaenorol cadarnhaol o raglenni tebyg yn symleiddio'r dasg o oresgyn rhwystrau.
- Caiff rhyddid i ddatblygu eu dulliau eu hunain ei weld fel cryfder er bod awydd am ganllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r prosesau mwy ffurfiol ar gyfer datblygu sail dystiolaeth wedi arwain at gymryd mwy o gamau tuag at integreiddio.
- Mae'r rhaglen integreiddio wedi dangos graddau uwch o angen ymysg teuluoedd nad oedd yn cael sylw gan raglenni blynyddoedd cynnar a oedd yn bod eisoes.
- Mae tybiaethau y byddai integreiddio yn achosi colli gwasanaethau i rai teuluoedd trwy symleiddio, ac y byddai'n brin o ganlyniadau cadarnhaol, wedi cael eu herio'n llwyddiannus.
- Mae'r rhaglen wedi dangos ei bod yn bosibl goresgyn dull seilo o weithio.
- Mae cynlluniau peilot effeithiol yn ddibynnol ar ymrwymiad gan uwch-reolwyr a staff gweithredol.
- Caiff gweithredu'r cynllun ei lesteirio gan weithrediad cyfochrog rhaglenni blynyddoedd cynnar lluosog a natur dros-dro y rhaglen integreiddio.
- Mae gwybodaeth o'r dulliau gorau o fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd mewn ffordd integredig yn debygol o oroesi'r gweithgarwch peilot mewn rhai achosion.
- Mae'r pandemig Coronafeirws (COVID-19) wedi peri oedi mewn gweithredu'r rhaglen a chyfyngu ar gyflwyno gwasanaethau blynyddoedd cynnar.

- Mae mabwysiadu gweithio o bell a chyfathrebu wedi hwyluso mwy o ymwneud gan randdeiliaid blaenllaw, gan alluogi mwy o gyfleoedd hyfforddi, a chyd-drafod mwy gydag rhai rheini.

Argymhellion

1. Dylai'r graddau y mae gwasanaethau ar gael, a phroffil y gymuned, mewn ardal fraenaru gael eu mapio yn y cyfnod cynllunio.
2. Dylai braenarwyr ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r nodau terfynol yn gynnar yn y gwaith.
3. Sicrhau ymrwymiad cynnar gan sefydliadau a dangos y bydd ffyrdd newydd o weithio yn diwallu'n well anghenion darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.
4. Defnyddio grwpiau sy'n bod eisoes ar gyfer llywodraethu lle bo'n bosibl, gan benodi rhywun i wneud y penderfyniadau terfynol er mwyn osgoi dyblygu a dryswch ynghylch awdurdodaeth.
5. Herio tybiaethau ynghylch y sail resymegol dros ffyrdd presennol o weithio. Mae prosesau ffurfiol fel Vanguard yn ddulliau effeithiol o wneud hyn yn llwyddiannus.
6. Gweithredu mwy o gysondeb a rhoi mwy o gyfeiriad strategol ar sut mae rhaglenni blynyddoedd cynnar yn gyson â'i gilydd ar lefel genedlaethol.
7. Galluogi cynllunio hirdymor gyda llai o risg gyda chanllawiau cliriach ar y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.
8. Sicrhau unffurfiaeth yn y ddealltwriaeth o weledigaeth a diben integreiddio er mwyn sicrhau bod ardaloedd braenaru, wrth iddynt dorri eu cwysi eu hunain, ar sail cyd-destunau lleol, yn parhau'n berthnasol i'r rhaglen.

1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Dros y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector i gychwyn amrywiaeth o raglenni blynyddoedd cynnar. Roedd y rhaglenni hyn â'r nod o roi cymorth a chanllawiau i blant a'u teuluoedd gael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni wedi eu targedu megis Dechrau'n Deg a rhaglenni cyffredinol sy'n cynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Rhaglen Plant Iach Cymru a'r Cyfnod Sylfaen.

1.2 O ganlyniad i'r rhaglenni hyn, mae cynnydd wedi bod mewn gwelliannau yn y ddarpariaeth o wasanaethau ac yn y teuluoedd sy'n manteisio ar y cynnig am gymorth.[2] Fodd bynnag, fel y nodwyd ym manyleb y rhaglenni, mae rhai pryderon wedi eu codi bod diffyg cydgysylltu digonol wrth ymdrin â'r blynyddoedd cynnar, gan leihau'r potensial i ddarparu cymorth ymatebol, effeithiol ac effeithlon i blant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

1.3 Mewn ymateb i hyn, ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i fod yn bartner datblygu integreiddio blynyddoedd cynnar ar y cyd â Llywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu model integreiddio blynyddoedd cynnar y gellid ei gyflwyno'n ehangach wedi hynny. Cafodd Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y rhaglen integreiddio') ei llunio i greu dull mwy cydlynus a chydgysylltiedig o gyflwyno cymorth i blant bach a'u teuluoedd, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio o fewn y rhaglenni sy'n bod eisoes, yn benodol Dechrau'n Deg, Plant Iach Cymru a Teuluoedd yn Gyntaf.

1.4 Wrth ddatblygu'r ffordd newydd o weithio, roedd y diddordeb gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn ei gwneud yn glir y byddai'n anodd datblygu model sengl y gellid ei gyflwyno i bawb oherwydd gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol a'i gilydd. Ym mis

[2] Manyleb ar gyfer y Gwerthusiad o Raglen System Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar tt.35-37.

Tachwedd 2018 fe wnaeth wyth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymrwymo i ddod yn 'fraenarwyr' (ardaloedd braenaru) yn y rhaglen integreiddio yn ogystal â Chwm Taf. Rhoddwyd cymorth gan Lywodraeth Cymru[3] i bob ardal fraenaru i'w galluogi i adnabod problemau, sicrhau ymrwymiad lleol, a datblygu a pherchnogi'r atebion. Cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr ardaloedd braenaru y dasg o brofi elfennau craidd system flynyddoedd cynnar integredig gyda phwyslais ar gydgysylltu gwasanaethau yn lleol.

1.5 Yn hydref 2019, daeth Grant Treialu Rhanbarthol i fod ar gael i ardaloedd braenaru dreialu dulliau penodol o gyflwyno cymorth blynyddoedd cynnar ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Yn wreiddiol, rhoddwyd £500,000 i'w rannu rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y cynllun braenaru ym mhob rhanbarth bwrdd iechyd a oedd yn cymryd rhan[4], ond o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws (COVID-19) a'r angen i ddefnyddio cyllid at ddibenion gwahanol, newidiodd y ffigur hwn i £250,000.

1.6 Mae cyllid ar gyfer y Grantiau Cydgysylltu Lleol a'r Grantiau Treialu Rhanbarthol wedi parhau i flwyddyn ariannol 2021-22 ac wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r ardaloedd braenaru yn cwblhau'r ffurflenni cais a chynlluniau busnes sy'n ofynnol fel rhan o'u cais.

Ysgogwyr polisi

1.7 Un ysgogiad polisi allweddol y tu ôl i'r weledigaeth a'r angen am y rhaglen integreiddio oedd polisi Llywodraeth Cymru. Roedd *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol (2017)* yn cyflwyno gweledigaeth fod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. O fewn un o'r pump ymrwymiad trawsbynciol yn y strategaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddent yn adeiladu ar eu rhaglenni

[3] Yn benodol, Grant Cydgysylltu Lleol blynyddol o £50,000 i ariannu swydd cydgysylltydd ym mhob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus law yn llaw â hwyluso cymorth gan gymheiriaid, trwy weithdai a drefnwyd bob tua dau fis gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynrychiolwyr braenaru i gyfarfod ei gilydd a rhannu'r hyn a ddysgir a'r arferion gorau.

[4] Mae wedi bod yn ofynnol i ardaloedd braenaru gyflwyno cynlluniau busnes ar gyfer y Grant Treialu Rhanbarthol ar lefel ranbarthol, er bod llawer o'r gweithgarwch peilot a gefnogwyd wedi cael ei gyflwyno ar lefel awdurdod lleol neu ardal.

blynyddoedd cynnar cyfredol a chreu system fwy cydgysylltiedig, ymatebol sy'n gosod anghenion unigryw pob plentyn fel sail iddi.

1.8 Mae'r weledigaeth hon yn egwyddor allweddol hefyd yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, sy'n gosod y nod o welliant pellach mewn integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau gan y cydnabuwyd hyn fel un o'r ysgogwyr allweddol i wireddu potensial llawn llesiant unigolion. Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf wedi eu llunio i gefnogi a chyflwyno gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

1.9 Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn cyflwyno pedair egwyddor allweddol, sef pobl, cydweithredu, llesiant ac ymyrraeth gynnar, i awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Sail Resymegol y Gwerthusiad

1.10 Nod y gwerthusiad hwn oedd cynnig dealltwriaeth o'r ffordd y gweithredir y rhaglen gyda'r bwriad o fanteisio i'r eithaf ar yr hyn a ddysgwyd o ran y dulliau a ddefnyddiwyd, yr heriau a rhwystrau a ganfuwyd a'r blaenoriaethau i'w profi ymhellach.

1.11 Bydd canlyniadau'r gwerthusiad yn arwain penderfyniadau ar y ddarpariaeth bresennol ac yn y dyfodol ar sail profiadau'r rheolwyr o ran dulliau cynllunio, ac ymarferwyr sy'n cyflwyno'r rhaglenni hyn gyda'r canlyniadau dilynol o wasanaethau gwell a chydgysylltiedig i blant a theuluoedd. Byddant hefyd yn arwain datblygiad polisi ac yn rhoi tystiolaeth a fydd yn sail ar gyfer unrhyw ehangu neu esblygu'r rhaglen yn y dyfodol.

Strwythur yr adroddiad

1.12 Yr adroddiad hwn yw prif allbwn y gwerthusiad o'r rhaglen integreiddio. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cwestiynau gwerthuso a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ym manyleb y tendr ac mae wedi'i strwythuro fel a ganlyn, gydag:

- Adran 1 yn rhoi cyflwyniad a chefndir i'r rhaglen integreiddio a throsolwg o sail resymegol ac amcanion y gwerthusiad.
- Adran 2 yn amlinellu'r dull methodolegol a ddilynwyd trwy gydol cwrs y gwerthusiad.
- Adran 3 yn archwilio a oes gweledigaeth glir o integreiddio Blynyddoedd Cynnar o fewn ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y cynllun braenaru a sut y datblygwyd y weledigaeth hon.
- Adran 4 yn penderfynu a oes theori glir i'r rhaglen, ar lefel genedaethol a lleol.
- Adran 5 yn asesu pa mor effeithiol fu'r gweithredu hyd yma ar draws ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y cynllun braenaru.
- Adran 6 yn disgrifio arwyddion cynnar o 'lwyddiant' dros gwrs taith integreiddio'r ardaloedd braenaru.
- Adran 7 yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer unrhyw gynllun i ehangu'r rhaglen yn genedlaethol yn y dyfodol.
- Adran 8 yn ffurfio casgliadau o'r gwaith gwerthuso a gyflawnwyd hyd yma.

2. Methodoleg

2.1 Er mwyn cyflawni nodau'r gwerthusiad o roi dealltwriaeth o'r ffordd y gweithredwyd y rhaglen integreiddio ac i osod sail ar gyfer cyflwyno'r rhaglen i fwy o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol, gosododd Llywodraeth Cymru chwe chwestiwn ymchwil allweddol:

- A oes gweledigaeth glir o integreiddio Blynyddoedd Cynnar o fewn ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y cynllun braenaru?
- A yw'r gwahanol sefydliadau o fewn ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y cynllun braenaru yn ymrwymo i'r weledigaeth integreiddio ac yn ei pherchnogi?
- A oes theori glir i'r rhaglen (ar lefel genedlaethol a lleol)?
- Pa mor effeithiol fu'r gweithredu hyd yma?
- A oes unrhyw arwyddion cynnar o 'lwyddiant'?
- Beth yw'r argymhellion ar gyfer unrhyw gynlluniau i gyflwyno'r rhaglen yn genedlaethol yn y dyfodol?

2.2 I ymdrin â'r cwestiynau hyn lluniwyd methodoleg y gwerthusiad i helpu adnabod yr arferion gorau ar draws yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd yn cymryd rhan. Y bwriad oedd manteisio i'r eithaf ar yr hyn a ddysgwyd o'r dulliau a weithredwyd gan yr ardaloedd braenaru, yn ogystal â'r heriau maent wedi eu profi. Ceisiodd hefyd adnabod feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin iddynt, a'r dulliau a gynigiwyd gan y braenarwyr i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a fyddai'n ddefnyddiol i ardaloedd eraill.

Gwerthuso Realyddol

2.3 I gydnabod effeithiau cyd-destunau lleol, mae'r dull yn seiliedig ar egwyddorion sy'n gyson â theori gwerthuso realyddol.[5] Mae gwerthuso realyddol yn gofyn "beth sy'n gweithio, i bwy, ym mha gysylltiadau, i ba raddau, ym mha gyd-destunau, a sut?". Gan fod y ffactorau lluosog hyn yn cael eu hystyried mewn gwerthusiad

[5] Datblygwyd yn wreiddiol gan Pawson a Tilley (1997) ar gyfer mynd y tu hwnt i ofyn 'a yw'n gweithio?' yn unig. https://www.betterevaluation.org/en/approach/realist_evaluation

realyddol, mae'n ffordd ddelfrydol o arfarnu braenarwyr lluosog ac o ymchwilio'r amrywiadau yn yr arferion gorau sy'n dod i'r amlwg. Mae ei gryfder allweddol mewn darparu canllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ardaloedd braenaru yn y dyfodol gan ei fod yn ceisio adnabod y mecanwaith cynhenid, yr ysgogwyr cymdeithasol neu seicolegol o dan yr wyneb sy'n achosi effaith mewn ymateb i ymyrraeth. Lle gall dulliau gwerthuso eraill adael y rhain fel 'blwch du' anhysbys, mae gwerthuso realyddol yn ymchwilio'n fanwl i'r tybiaethau ynghylch newid.

2.4 Gan mai un o egwyddorion craidd gwerthuso realyddol yw cyfleu dealltwriaeth, defnyddiwyd dull graddol wrth fireinio'r canfyddiadau. Roedd hyn yn galluogi'r gwerthusiad i edrych ar newid trwy amser wrth i'r ardaloedd braenaru symud ymlaen gyda'r rhaglen. Roedd pob cam o waith maes yn seiliedig ar ganfyddiadau'r camau blaenorol a oedd yn galluogi'r casgliadau i esblygu ac i feysydd oedd yn ennyn diddordeb gael eu hymchwilio mewn mwy o ddyfnder.

Camau'r Gwerthusiad

Cam 1

2.5 Roedd Cam 1 yn cynnwys cam cychwynnol y gwerthusiad. Dechreuodd y gwerthusiad gyda chyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a Miller Research ym mis Medi 2019 i drafod amcanion ac allbynnau a chytuno ar fethodoleg ynghyd â graddfeydd amser y gwerthusiad. Allbwn y cyfnod hwn oedd fersiwn gyntaf llawlyfr y prosiect, dogfen fyw a oedd yn arwain y gwerthuso ac yn cofnodi unrhyw risgiau a newidiadau.

Cam 2

2.6 Yn yr ail gam, cyflawnwyd ymarferion cwmpasu i ddatblygu dealltwriaeth gychwynnol o theori'r rhaglen. Cyflawnwyd adolygiad desg o lenyddiaeth berthnasol law yn llaw â chyfweliadau gyda rhanddeiliaid strategol ym Myrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr ardaloedd braenaru rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020. Cynhaliwyd sesiynau gweithdy gyda chynrychiolwyr o'r ardaloedd

braenaru a Llywodraeth Cymru yng Nghasnewydd ar ddau achlysur[6]. Ynghyd â theori cyffredinol y rhaglen, enillodd y gwerthusiad ddealltwriaeth o gyd-destunau lleol pob ardal fraenaru, gan adeiladu proffil o ffactorau y disgwylid iddynt effeithio ar y profiadau unigol o weithredu'r rhaglen integreiddio.

Cam 3

2.7 Cam 3 oedd cam cyntaf y gwaith maes ar raddfa fawr ym mhob ardal fraenaru. Cychwynnodd gyda gweithdy rhithiol rhwng Llywodraeth Cymru a Miller Research ar ôl oedi a achoswyd gan y pandemig Coronafeirws (COVID-19). Cynhaliwyd cyfweliadau trwy MS Teams neu dros y ffôn gyda rhanddeiliaid strategol a gweithredol ym Myrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y naw ardal fraenaru rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2020. Roedd y canllawiau pwnc yn seiliedig ar gwestiynau allweddol y gwerthusiad a'r profiad o'r rhaglen hyd yma. Trafodwyd hefyd effeithiau Coronafeirws (COVID-19) ar waith y rhaglen. Casglwyd y canfyddiadau cychwynnol at ei gilydd ar gyfres o sleidiau a'i rhannu gyda Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod hwn ym mis Rhagfyr 2020.

Cam 4

2.8 Cyflawnwyd gwaith maes dilynol yn ystod cam 4, a ddigwyddodd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021. Roedd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid[7] yn canolbwyntio ar drafod y canfyddiadau cychwynnol o gyfnod 3 a'r profiadau pellach o'r rhaglen. Cynhaliwyd gweithdai rhithiol gyda chwech o'r braenarwyr lle gallai'r rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y cyd ar eu profiadau a thrafod goblygiadau i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd.

Cyfnod 5

[6] Digwyddodd y rhain fel rhan o gyfarfodydd braenaru a drefnwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru, ym mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2020.

[7] Roedd y cyfweliadau hyn yn cynnwys rhai o'r rhanddeiliaid strategol a gyfwelwyd mewn camau blaenorol o'r gwerthusiad yn ogystal â rhanddeiliaid mwy gweithredol a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd.

2.9 Cam terfynol y gwerthusiad oedd dadansoddi'r canfyddiadau o bob cyfnod blaenorol a pharatoi'r adroddiad hwn. Cafodd gwybodaeth ansoddol ei dadansoddi dro ar ôl tro gan ddefnyddio meddalwedd mapio meddwl a oedd yn cyfosod data yn ôl thema a chyd-destun. Ychwanegwyd at y dadansoddiad hwn gyda chanfyddiadau o bob cyfnod o'r gwerthusiad.

Effeithiau Coronafeirws (COVID-19)

2.10 Mae'r cyfyngiadau iechyd cyhoeddus a orfodwyd o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws (COVID-19) wedi bod yn ffactor yn y gwerthusiad trwy ei effaith ar yr ardaloedd braenaru, a drafodir yn yr adrannau isod, ac wrth weithredu'r fethodoleg. Roedd camau cyntaf y gwerthusiad yn gallu defnyddio dull ymchwil gweithredol, a dyna oedd eu cynllun gwreiddiol. Fe wnaeth y cyfnod clo cyntaf a gychwynnodd ym mis Mawrth 2020 beri oedi yng ngwaith maes cam 3 o wanwyn 2020 hyd hydref 2020 a cham 4 o ddiwedd 2020 hyd fisoedd cyntaf 2021. Yn ogystal â'r oedi, newidwyd samplu cam 3 i samplu ar sail cyfleoedd i gynnwys rhanddeiliaid a oedd ar gael, gan eu bod ar y pryd yn dal i addasu i effeithiau'r pandemig ar gyflwyno gwasanaethau yn yr ardaloedd braenaru.

3. Gweledigaeth integreiddio Blynyddoedd Cynnar

Creu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer integreiddio Blynyddoedd Cynnar

3.1 Gweithgarwch cyntaf y cynllun prosiect braenaru yw datblygu gweledigaeth a gwerthoedd a rennir. Cefnogir hyn gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi creu gweledigaeth fel un o'r elfennau craidd sy'n angenrheidiol ar gyfer creu system integredig sengl blynyddoedd cynnar. Y bwriad ar y cychwyn oedd i hyn ddigwydd pan fo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymuno â'r rhaglen integreiddio.

3.2 Mae gan y mwyafrif o randdeiliaid braenaru ddealltwriaeth glir a chyffredinol gyson o'u 'gweledigaeth' ar gyfer integreiddio blynyddoedd cynnar. Er hynny, mae ym mhob ardal fraenaru, i raddau amrywiol, y gred fod y weledigaeth hon yn dal ar lefel eithaf uchel – hyd yn oed ddwy flynedd i mewn i'r rhaglen – sy'n ymwneud ag integreiddio gwasanaethau a chael eu harwain yn fwy gan angen, ond heb ddim manylder ar beth mae hyn yn ei olygu i wasanaethau blynyddoedd cynnar: *"Dw i ddim yn meddwl ein bod ni byth wedi penderfynu sut fath o weledigaeth sydd arnom ei heisiau."* (Rhanddeiliad strategol, 2021)

3.3 Mae staff gweithredol – yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gweithredu prosiectau peilot – yn tueddu i fod yn fwy argyhoeddedig o weledigaeth ar gyfer yr hyn maent yn ei wneud, er bod hyn yn ymwneud yn fwy â gweithgarwch peilot penodol yn hytrach na'r rhaglen fraenaru yn gyffredinol: *"Yn gyffredinol, oes [mae gweledigaeth glir] – rydym i gyd yn ymwybodol o le'r rydym yn mynd ac o amcanion y prosiect o safbwynt integreiddio."* (Rhanddeiliad gweithredol, 2021)

3.4 Ymysg rhai ardaloedd braenaru, y farn oedd bod proses Vanguard wedi bod yn effeithiol iawn wrth ddarparu llwyfan ar gyfer datblygu gweledigaeth ranbarthol, gyda hyblygrwydd ar lefel awdurdod lleol / bwrdd gwasanaethau cyhoeddus: *"fe wnaethon ni'r gwaith gyda*

Vanguard, a oedd yn wych wrth grisialu sut mae arnom eisiau symud ymlaen, beth yw ein dibenion." (Rhanddeiliad strategol, 2019)

3.5 Mewn ardaloedd eraill, roedd y gwaith llunio gweledigaeth a wnaed ar gychwyn y broses fraenaru gyda grŵp eithaf cyfyngedig o randdeiliaid, a oedd wedi creu anawsterau wrth geisio ymrwymiad gan bartneriaid ehangach, er enghraifft y sector gwirfoddol.

3.6 Mewn ardaloedd byrddau iechyd gyda mwy nag un awdurdod lleol sy'n ardal fraenaru, y farn yw bod llunio a gweithredu cynllun peilot lleol wedi galluogi datblygu gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer integreiddio blynyddoedd cynnar ar lefel ranbarthol. Yn benodol, mae'r cynlluniau peilot wedi darlunio integreiddio blynyddoedd cynnar ar waith ar lefel ardal, sydd wedi helpu cyfleu ac wedyn sicrhau ymrwymiad i weledigaeth ehangach ar gyfer integreiddio ar lefel strategol.

3.7 Ar y llaw arall, mae rhai rhanddeiliaid – rhai strategol yn bennaf – yn bryderus am y diffyg cyd-weledigaeth ymysg partneriaid y rhaglen, sydd â gwahanol flaenoriaethau, ar lefel awdurdod lleol neu fwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gwaith maes diweddaraf wedi datgelu gwahaniaethau barn mewn rhai ardaloedd o ran cyfeiriad polisi yn y dyfodol a gwrthwynebiad i dull un maint addas i bawb.

3.8 Credir hefyd fod siniciaeth ynghylch natur tymor byr y cyllid ar gyfer y rhaglen integreiddio wedi tanseilio ymrwymiad i weledigaeth a dealltwriaeth gyffredin o sut i gyflawni integreiddio blynyddoedd cynnar.

3.9 Mae lleiafrif o randdeiliaid yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi rhoi mwy o gyfarwyddyd ar ddatblygu gweledigaeth: *"roedd angen mwy o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar beth roeddent yn ei ddisgwyl oddi wrth integreiddio blynyddoedd cynnar … dw i'n deall fod arnyn nhw eisiau inni dreialu pethau yn lleol, ond mae wedi bod yn agored iawn."* (Rhanddeiliad strategol, 2021)

Deall nodau ac amcanion y rhaglen integreiddio

Nodau'r Rhaglen Integreiddio

3.10 Nodau'r rhaglen integreiddio yw:

- Gwella'r graddau y mae gwasanaethau ar gael, a mynediad atynt
- Lleihau bylchau mewn gwasanaethau
- Symleiddio llwybrau atgyfeirio
- Gwella dealltwriaeth o angen/galw
- Cwmpasu, llunio a gweithredu strategaeth ehangach
- Gwella cyrhaeddiad addysgol
- Rhwystro teuluoedd rhag chwalu
- Lleihau niferoedd y plant sy'n dod i dderbyn gofal

3.11 Mae dwy flynedd gyntaf y rhaglen – a'r gwerthusiad ffurfiannol hwn – yn canolbwyntio ar y pum nod cyntaf, sy'n ymwneud i raddau helaeth â phrosesau, ac mae gan y mwyafrif o randdeiliaid raddau da o ymwybyddiaeth o'r nodau hyn.

3.12 Mae gwella mynediad at wasanaethau a lleihau bylchau mewn gwasanaethau yn rhan hanfodol o weithgarwch yr holl ardaloedd braenaru. Mae mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb canfyddedig wrth wahaniaethu rhwng Dechrau'n Deg a gwasanaethau cyffredinol yn agwedd allweddol o'r nod hwn ac i lawer ardal, mae gwaith y cynllun peilot – lle maent yn buddsoddi mewn capasiti ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg – yn cael ei weld fel y prif gyfrwng ar gyfer cyflawni'r ddau nod hyn. Mae llawer o randdeiliaid wedi awgrymu mai'r angen i osgoi glastwreiddio gwasanaethau a rhaglenni sy'n bod eisoes fel Dechrau'n Deg yw'r sail resymegol dros yr angen am gyllid ac adnoddau ychwanegol.

3.13 Nodwyd hefyd nad yw gwella mynediad at wasanaethau yn ymwneud yn unig â chapasiti na swm y cymorth sydd ar gael, ond hefyd â'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i deuluoedd – megis rhianta, gofal plant, llythrennedd ariannol, cymorth tai a heddlu, er enghraifft – er mwyn sicrhau y gallant gael y cymorth mae arnynt ei angen, yn hytrach na'r hyn sydd ar gael yn y system bresennol.

3.14 Mewn llawer ardal, mae cydnabyddiaeth fod llwybrau atgyfeirio annigonol, aneglur neu anghydgysylltiedig yn ffactor allweddol sy'n

tanseilio gwerth darpariaeth blynyddoedd cynnar a bod rhesymoli'r llwybrau hyn yn agwedd bwysig o wella'r ddarpariaeth. Mewn ardaloedd lle mae'r braenarwyr wedi mynd ati i ddyblygu model Dechrau'n Deg mewn ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg, mae cydnabyddiaeth mai rhan o hyn yw byrhau a symleiddio llwybrau atgyfeirio, er enghraifft trwy neilltuo amser i adeiladu cysylltiadau (lled-ffurfiol yn aml) ag asiantaethau a gwasanaethau eraill y gallant wedyn gyfeirio teuluoedd atynt.

3.15 Mae gwella cywirdeb atgyfeiriadau, er mwyn lleihau atgyfeirio anghyflawn neu anaddas at wasanaethau fel lleferydd ac iaith hefyd wedi bod yn rhan o'r dull o gyrraedd y nod hwn mewn rhai ardaloedd.

3.16 Mae'r holl fraenarwyr yn cydnabod mai rhan bwysig o'r rhaglen yw deall anghenion eu teuluoedd ac mae pob ardal wedi blaenoriaethu rhyw ffurf o asesiad o anghenion neu ymarferiad mapio yng nghamau cynnar y rhaglen: *"roedd yn hanfodol nodi manylion y galw, y problemau mewn teuluoedd a'r gymuned ehangach – tai gwael, mynediad at wasanaethau, colli swyddi ac anawsterau ariannol er mwyn datblygu darlun o'r gwydnwch mewn teuluoedd a rhagweld pa deuluoedd sy'n debygol o fynd i argyfwng."* (Rhanddeiliad strategol, 2021)

3.17 Er bod cam diweddaraf yr ymchwil wedi dangos bod llawer o'r ardaloedd yn gweithio tuag at ddatblygu strategaeth dymor canolig i hirdymor ar gyfer integreiddio blynyddoedd cynnar, nid oedd hyn yn cael ei grybwyll yn helaeth fel nod yng nghamau cynharach y gwerthusiad. Mae rhanddeiliaid wedi cydnabod bod y pwyslais yn hytrach wedi bod ar adnabod rhwystrau a threialu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â hwy mewn ardal a ddiffiniwyd – yn hytrach na llunio a gweithredu strategaeth ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus neu fwrdd iechyd ar y cychwyn.

3.18 Ddwy flynedd i mewn i'r rhaglen fodd bynnag, ac mewn llawer o achosion wrth ddefnyddio tystiolaeth o'r gwaith peilot, mae ardaloedd braenaru yn gweithio tuag at ddatblygu agwedd strategol at

ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac yn gweld hyn fel un o ganlyniadau pwysig y rhaglen integreiddio.

3.19 Y tu hwnt i bum nod cyntaf y rhaglen integreiddio ar lefel genedlaethol, mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at nodau eraill i'w gweithgarwch lleol, gan gynnwys:

- Mapio darpariaeth blynyddoedd cynnar (a gyflwynir gan yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector) i ganiatáu ar gyfer cydgysylltu ac atgyfeiriadau rhwng gwasnaethau er mwyn osgoi dyblygu.
- Creu 'un drws ffrynt' i deuluoedd gael at wasanaethau, trwy symleiddio prosesau atgyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau.
- Cael gwared ar rwystrau rhag defnyddio gwasanaethau – ee mynd gyda rhieni i grwpiau ac i gyfarfod rhieni eraill.
- Canolbwyntio ar baratoi ar gyfer dysgu a chasglu data llinell sylfaen ar barodrwydd[8] pob plentyn ar gyfer ysgol. Mae amryw o randdeiliaid wedi crybwyll yr angen i'r rhaglen fraenaru gefnogi gweithredu'r llwybr newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a rôl gweithlu'r blynyddoedd cynnar mewn rhwystro datblygu Anghenion Dysgu Ychwanegol a chefnogi plant ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Amcanion y Rhaglen Integreiddio

3.20 Amcanion y rhaglen yw:

- Cymryd yr elfennau mwyaf effeithiol o holl raglenni blynyddoedd cynnar presennol Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Phlant Iach Cymru) a chreu system fwy cydgysylltiedig, ymatebol sy'n rhoi'r lle blaenaf i anghenion unigol pob plentyn

[8] Megis lleferyddd ac iaith, gweithgarwch corfforol, datblygu personol a chymdeithasol etc

- Cyflwyno cymorth estynedig, cydlynus i deuluoedd, gan dynnu ynghyd raglenni cefnogi teuluoedd, a chanolbwyntio ar rianta cadarnhaol ac ymyrraeth gynnar
- Treialu dull o gyd-awduro system blynyddoedd cynnar mewn naw ardal, gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

3.21 Caiff y rhaglen integreiddio ei gweld i raddau helaeth fel mecanwaith i resymoli'r cyllid presennol ar gyfer blynyddoedd cynnar er mwyn cyflawni llawer, os nad y cwbl, o'r nodau uchod a drafodir ym mharagraffau 3.10 i 3.19 uchod. Yn y mwyafrif o ardaloedd, mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn darparu fframwaith i sylfaenu gweithgarwch braenaru arno ac mae llawer o randdeiliaid wedi pwysleisio pwysigrwydd glynu at amserlen Rhaglen Plant Iach Cymru o gysylltiadau, egwyddor cyffredinoliaeth gynyddol[9] a darparu lefelau cyffredinol, manylach neu ddwys o gymorth, sy'n addas i anghenion teulu.

3.22 Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg[10] wedi cael ei chanmol yn helaeth drwy'r gwerthusiad hwn am y cymorth mae'n ei ddarparu i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r elfen Allgymorth a'r hyblygrwydd a ddarperir gan y Grant Plant a Chymunedau, mae rhai teuluoedd difreintiedig nad ydynt yn gallu cael at y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd. Teimlai rhanddeiliaid fod hyn yn annigonol i ymdrin â phob teulu mewn angen, yn enwedig mewn ardaloedd braenaru lle'r oedd Dechrau'n Deg ar waith mewn ardal fach yn unig, neu lle nad oedd ffiniau yn adlewyrchu ffiniau cymunedau, neu lle'r oedd dangosyddion amddifadedd yn amrywio'n sylweddol mewn cyfnodau byr o amser. Fel y nodwyd uchod, mae cynlluniau peilot a gafodd eu cyllido drwy'r rhaglen integreiddio wedi

[9] Mae cyffredinoliaeth gynyddol yn diffinio gwasanaethau cyffredinol a gaiff eu cynllunio a'u darparu'n systematig er mwyn darparu continwwm o gymorth i blant a theuluoedd yn ôl eu hangen.
[10] Rhaglen blynyddoedd cynnar wedi ei thargedu yw Dechrau'n Deg, ar gyfer teuluoedd sydd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r rhaglen yn cyllido gofal plant rhan-amser i blant dwy i dair oed, gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys, mynediad at gymorth rhianta a chymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

ceisio efelychu dull Dechrau'n Deg, wrth gydnabod cryfder y cysyniad a'r angen i'w ymestyn i fwy o gymunedau er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu at blant a theuluoedd sy'n agored i niwed ac mewn angen am gymorth.

3.23 Mae rhai rhanddeiliaid wedi bod yn fwy uniongyrchol feirniadol o'r rhaglen Dechrau'n Deg am ei darpariaeth gynhwysfawr o wasanaethau manylach yn yr ardaloedd sy'n rhan ohoni, boed ar deuluoedd angen y cymorth hwn neu beidio. Mae un ardal wedi defnyddio cyllid y cynllun braenaru i gael gwared ar y gwahaniaeth rhwng cymorth Dechrau'n deg a chymorth cyffredinol[11] er mwyn darparu gwasanaeth ymwelwyr iechyd cyffredinol, seiliedig ar angen, i bob teulu ar draws awdurdod lleol cyfan[12].

3.24 Mae rhanddeiliaid mewn ardaloedd eraill wedi bod yn feirniadol o'r rhaglen Dechrau'n Deg am fethu â bod yn ddigon penodol yn y ffordd y caiff ei gweithredu, a'r canfyddiad yw bod hyn wedi arwain at amrywiad yn y gweithredu – mater a all achosi anawsterau i fyrddau iechyd sy'n cynnwys llawer o wahanol awdurdodau lleol yn eu hardal[13].

3.25 Mae'r ail amcan â chysylltiad agos iawn at y cyntaf a dyma sail resymegol llawer o weithgarwch peilot yr ardaloedd braenaru. Bwriad rhaglenni'r Grant Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnwys amryw o raglenni ymyrryd ac atal cynnar, yw rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol yn y ffordd maent yn gweithredu'r saith rhaglen a gynhwysir yn y grant. Roedd llawer o randdeiliaid y cynllun braenaru yn awgrymu nad yw'r Grant hyd yma wedi cyflawni mwy o gydlyniant a bod y gwahanol raglenni'n dal i gael eu cyflwyno ar wahân i raddau helaeth a heb y cynllunio a'r comisiynu strategol, traws-raglen a fwriadwyd: *"Mae'r braenarwr yno i ymdrin â'r hyn mae'r Grant Plant a Chymunedau wedi methu â'i wneud."* (Rhanddeiliad strategol, 2021)

[11] Gwasanaethau ymwelwyr iechyd mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg
[12] Heb gynnwys agwedd gofal plant rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n dal i gael ei gyfyngu i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.
[13] Caiff y rhaglen Dechrau'n Deg ei chyflwyno ar sail ardal awdurdod lleol.

3.26 Mae ardaloedd braenaru wedi canolbwyntio ar gael gwasanaethau i gydweithio a rhannu gwybodaeth am deuluoedd trwy, er enghraifft, gyfarfodydd 'Yr Hyn sy'n Bwysig'[14] gan sicrhau ymwybyddiaeth o rolau ei gilydd ac o weithio ar y cyd yn hytrach na'n unigol, er mwyn cyflawni'r amcan hwn o fwy o gydlyniant.

3.27 Er bod y cyllid grant[15] a roddwyd am y tro cyntaf i ardaloedd braenaru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 wedi galluogi treialu system flynyddoedd cynnar newydd, nid oedd y cyllid hwn yn rhywbeth roedd braenarwyr yn gwybod amdano ar gychwyn y rhaglen (Ebrill 2019). Erbyn yr adeg i'r gwerthusiad gychwyn (Medi 2019) a chynnal y cyfweliadau cwmpasu cychwynnol (Rhagfyr 2019) roedd ceisiadau am y grant ychwanegol wedi cael eu cyflwyno ac roedd y trydydd amcan hwn yn allweddol iawn i ddealltwriaeth rhanddeiliaid o sail resymegol y rhaglen fraenaru, sef: *"datblygu rhaglen beilot i brofi'r gwahanol theorïau, er enghraifft, tîm wedi'i gyd-leoli, cynyddu capasiti mewn timau sy'n bod eisoes, datblygu systemau TG … bydd gan bob awdurdod lleol eu theori eu hunain."* (Rhanddeiliad strategol, 2019)

3.28 Yn fwy diweddar ac wrth feddwl yn ôl ar ddiben y cyllid ychwanegol hwn, sy'n cael ei weld gan bron bawb fel rhywbeth sy'n gyfystyr â'r rhaglen fraenaru yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid â barn debyg, er yr ymddengys fod hyn gyda mwy o gydnabyddiaeth nad yw'r grant ar gael ond yn y tymor byr a'r angen i ystyried strategaethau gadael a chyfleoedd am brif ffrydio gweithgarwch y cynllun peilot.

Graddau integreiddio o fewn gwahanol ardaloedd braenaru

[14] Fel rhan o'r cyfarfodydd Yr Hyn sy'n Bwysig, bydd bydwragedd cymunedol neu weithwyr cymorth i deuluoedd yn ymweld â theulu i ofyn cwestiynau am yr hyn sy'n bwysig iddynt cyn cyflwyno'r adborth hwn i weddill y tîm, a fydd yn gwrando ar y dehongliad o'r 'hyn sy'n bwysig', gofyn cwestiynau i gael eglurder pellach ac yna datblygu cynllun gweithredu addas ar gyfer y teulu.

[15] Roedd hyn yn wreiddiol yn £500K i'w rannu rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus yr ardaloedd braenaru mewn rhanbarth bwrdd iechyd. Yn sgil y pandemig Coronafeirws (COVID-19) a'r angen i ddefnyddio cyllid i ddibenion eraill, newidwyd hyn i £250K.

3.29 Mae pob ardal fraenaru wedi cynnal hunan-asesiad o'r graddau mae integreiddio wedi digwydd gan ddefnyddio Matrics Aeddfedrwydd Blynyddoedd Cynnar y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar[16] o leiaf unwaith yn ystod cwrs y rhaglen hyd yma. Roedd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ardaloedd braenaru fynd trwy'r matrics prosesau hunan-asesu, gan ddefnyddio model newydd a ddatblygwyd yng Nghymru[17] ac ar gyfer Cymru, wedi dod ar gael ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21 ac fe wnaeth y mwyafrif o'r braenarwyr ymgeisio am yr arian ac maent ran o'r ffordd drwy'r broses[18].

3.30 Teimlai llawer o randdeiliaid fod mynd trwy'r broses wedi amlygu bod cymaint o le i wella o ran integreiddio blynyddoedd cynnar yn eu hardal. Mewn mwy nag un ardal fraenaru, roedd diffyg cydleoli timau blynyddoedd cynnar yn cael ei weld fel ffactor arwyddocaol yn tanseilio'r graddau roeddent yn integreiddio. Teimlai ardaloedd eraill ei bod yn rhy gynnar i ddweud yn union, gan nad ydynt wedi cwblhau eu proses hunan-asesu eto.

3.31 Er gwaethaf y pandemig Coronafeirws (COVID-19) a'r effaith mae hyn wedi'i gael ar gynnydd ardaloedd braenaru, mae fodd bynnag ganfyddiad o welliant yn y graddau o integreiddio ers cychwyn y rhaglen mewn rhai ardaloedd braenaru, yn enwedig mewn ardaloedd cynlluniau peilot.

3.32 Yng ngham terfynol y gwerthusiad, mae rhanddeiliaid cynlluniau braenaru bron yn unfrydol wedi graddio eu systemau blynyddoedd cynnar ar lefel sylfaenol neu gynnydd cynnar wrth ddefnyddio disgrifyddion y matrics, yn enwedig wrth iddynt symud tuag at gynllunio strategol ar lefel ranbarthol. Mae ymwybyddiaeth o'r broses

[16] Nid yw'r matrics gwreiddiol a ddefnyddiwyd gan fraenarwyr yng nghamau cynnar y rhaglen ar gael mwyach ar-lein. Mae'r fersiwn a ddiweddarwyd a ddefnyddiwyd gan rai braenarwyr, ond nid pob un, yn gynnar yn 2021 ar gael yma: EIF maturity matrix (Early Intervention Foundation)

[17] Roedd rhai rhanddeiliaid y cynllun braenaru yn ymwneud â datblygu fersiwn o'r matrics ar gyfer Cymru.

[18] Mae braenarwyr wedi cwblhau agwedd hunan-asesu proses Matrics Aeddfedrwydd y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar ac maent yn disgwyl dilysu allanol gan y Sefydliad

integreiddio wedi cynyddu'n sylweddol ac nid yw braenarwyr o'r farn fod lefelau mor isel ar y matrics ar hyn o bryd yn broblem.

Ffactorau sy'n dylanwadu ar ymrymiad i weledigaeth integredig a dealltwriaeth gyffredin

3.33 Mae sawl math o ddeinameg wedi cyfrannu at raddau ymrwymiad i gyd-weledigaeth ar gyfer integreiddio blynyddoedd cynnar. Fel y crybwyllwyd yn fyr yn adran 3, mae'r graddau y mae cyllid ar gael i dreialu dull newydd o ymdrin â gwasanaethau blynyddoedd cynnar mewn ardal benodol wedi chwarae rhan bwysig mewn ysgogi ymrwymiad i'r gwaith braenaru a'r weledigaeth mae rhanddeiliaid strategol wedi eu datblygu mewn ardaloedd braenaru. Cafodd y grant a'r cyfle i ddyfeisio a threialu ffordd newydd o weithio eu disgrifio fel yr 'abwyd' i ddod â rhanddeiliaid ehangach 'at y bwrdd'; gyda'r cynlluniau peilot bellach ar waith, maent wedi helpu cynnal ymrwymiad i'r rhaglen a buddsoddi amser mewn datblygu strategaeth ehangach.

3.34 Mae'r cydgysylltydd braenaru hefyd yn chwarae rhan bwysig, o safbwynt yr wybodaeth gefndir a'r cysylltiadau sydd ganddynt yn ogystal â lle maent yn eistedd o fewn y sefydliadau braenaru; gyda'r naill beth a'r llall yn gallu helpu ennyn diddordeb partneriaid a sicrhau ymrwymiad i'r weledigaeth. Ar draws yr holl ardaloedd braenaru, ymddengys mai'r model gorau bosibl yw cydgysylltydd sydd â phrofiad o weithio mewn cyd-destun awdurdod lleol a bwrdd iechyd.

3.35 Mae gwaddol o fewn yr ardal leol hefyd yn ffactor a lle mae hanes wedi bod o ymdrechion i wella integreiddio – er enghraifft cymryd rhan mewn awdurdod lleol braenaru yn y Rhaglen Ariannu Hyblyg – sydd wedi cael effaith cadarnhaol ar ymrwymiad i'r weledigaeth o integreiddio blynyddoedd cynnar. Yn yr un modd, ar lefel sefydliadol, mae strwythurau rheoli mewnol ac a oes cysondeb rhwng cyfrifoldeb strategol dros yr amrywiol raglenni blynyddoedd cynnar a gwasanaethau eraill sy'n rhyngweithio â theuluoedd, hefyd wedi bod yn ffactorau dylanwadol.

3.36 Ar y llaw arall, mae ymrwymiad i'r rhaglen a'r weledigaeth y mae braenarwyr wedi sylfaenu eu gweithgarwch arnynt wedi cael ei danseilio gan wrthdaro mewn blaenoriaethau a thargedau o fewn partneriaid braenaru a rhyngddynt a'i gilydd. Mae hyn mewn rhai achosion wedi gwanhau ymrwymiad i integrediddo a chynnydd tuag at integreiddio.

3.37 Fel y crybwyllwyd yn Adran 3 uchod, mae graddau gweithgarwch yng nghamau cynnar y rhaglen integreiddio (er enghraifft yn y gwaith cwmpasu a mapio cychwynnol) a gwybodaeth o'r gweithgarwch treialu hefyd wedi dylanwadu ar faint mae pobl yn ymrwymo i'r weledigaeth. Mae ysgolion a bydwreigiaeth wedi cael eu nodi yng ngham terfynol y gwerthusiad fel grwpiau o randdeiliaid allweddol lle mae angen mwy o waith i'w cynnwys, gydag angen pellach i 'werthu' y weledigaeth a'r dull fel rhywbeth sy'n berthnasol a gwerth chweil iddynt.

3.38 Mae rhai rhanddeiliaid wedi disgrifio teimladau 'amddiffynnol' tuag at eu proffesiwn neu ofn 'sathru cyrn' ymysg rhai ymarferwyr blynyddoedd cynnar, sydd wedi effeithio'n negyddol ar eu parodrwydd i ymrwymo i ddull ar y cyd o gefnogi teuluoedd a phlant ifanc: *"mae rhai pobl wedi bod yn groen-denau ynghylch llwythi achosion neu gyllidebau a heb fod eisiau ildio na rhannu cyfrifoldeb [dros deuluoedd]."* (Rhanddeiliad gweithredol, 2021)

4. Theori’r rhaglen

Bodolaeth theori glir i’r rhaglen

4.1 Ar gychwyn y rhaglen rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ar theori’r rhaglen i’r ardaloedd braenaru. Roedd Theori Newid yn faes y gofynnwyd i fraenarwyr ei hystyried, a chyflwynwyd naratif o’r cychwyn o’r hyn a gredai Llywodraeth Cymru y dylai system flynyddoedd cynnar fod, gan gynnwys elfennau craidd.

4.2 Drwy gydol cwrs y gwerthusiad, nid oes neb o’r braenarwyr wedi mynegi theori glir – ar lefel genedlaethol – ar gyfer y rhaglen integreiddio. Awgrymwyd ar lefel uchel iawn mai’r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau systemau blynyddoedd cynnar cydlynus ac effeithiol yw cydgysylltu gweithgarwch ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus – gan weithio tuag at bob un o’r elfennau craidd gofynnol ar gyfer creu system integredig sengl blynyddoedd cynnar – er mwyn cyflawni gwell darpariaeth o wasanaethau blynyddoedd cynnar, a’r rheini wedi eu targedu’n well, ond ni chafwyd dim manylion o sut na pam mai hyn ddylai fod y dull i’w ddefnyddio. Yn ogystal, ni weithredwyd hyn yn y gwaith peilot a gyflawnwyd, gan fod y cynlluniau peilot ym mhob achos wedi cael eu cyflawni mewn ardal lai na thiriogaeth y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus perthnasol[19]. Er hynny, ar y cam cymharol gynnar hwn ar y daith integreiddio, mae treialu ar y raddfa hon wedi galluogi ardaloedd braenaru i ystyried y canfyddiadau a’u perthnasedd i ardaloedd eraill.

4.3 Mae rhanddeiliaid strategol mewn lleiafrif o ardaloedd wedi bod yn feirniadol o Lywodraeth Cymru am fethu â chynnig eglurder ynghylch yr egwyddorion craidd mae’r rhaglen yn seiliedig arni: *“Dw i’n cofio gofyn i Lywodraeth Cymru ar gychwyn y rhaglen fraenaru beth ddylai system flynyddoedd cynnar gydgysylltiedig fod ac ni chefais erioed ateb clir … a ydym yn glir yn yr hyn a olygwn gyda ‘chydgysylltu’ hyd yn oed.”* (Rhanddeiliad strategol, 2021)

[19] Gweler adran 5 am fwy o fanylion ar weithredu’r cynlluniau peilot.

4.4 Teimlai llawer o rai eraill fodd bynnag fod Llywodraeth Cymru – o leiaf cyn cychwyn y pandemig Coronafeirws (COVID-19) – wedi taro cydbwysedd da rhwng darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer yr hyn y dylai ardaloedd braenaru fod yn ei wneud trwy'r rhaglen, gan ganiatáu iddynt y rhyddid i ddatblygu dull sy'n berthnasol i gyd-destun eu hardal leol: *"roedd y gweithdai [braenaru] yn wirioneddol dda – wedi eu cynllunio'n dda, pob digwyddiad yn canolbwyntio ar rywbeth gwahanol, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym bob tro 'dyma beth sydd angen ichi ei wneud erbyn y tro nesaf a dyna sut mae angen ichi ddangos tystiolaeth ar ei gyfer.'"* (Rhanddeiliad strategol, 2021)

4.5 Er hynny, nid yw cynllun prosiect yn gyfystyr â theori rhaglen ar lefel genedlaethol na lleol ac mae ardaloedd braenaru wedi llunio eu dull yn gyffredinol ar sail tystiolaeth o angen ar lefel leol, fel y disgrifir isod.

Mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth o integreiddio blynyddoedd cynnar

4.6 Mae pob ardal fraenaru, i amrywiol raddau, wedi defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i arwain cyfeiriad a chwmpas eu gweithgarwch. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r dystiolaeth hon wedi dod o'r cwmpasu cychwynnol neu'r gwaith o lunio gweledigaeth a gyflawnwyd yn gynnar yn y broses. Er enghraifft, roedd gwaith Vanguard yn ymwneud â mynd trwy broses ffurfiol i adnabod pethau 'anhysbys anhysbys' ac i oresgyn tybiaethau ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflwyno, gyda golwg o ddatblygu dull mwy gwybodus. Roedd y broses hefyd yn cynnwys cyfarfodydd sgwrsio, gan ddod â gwahanol weithwyr proffesiynol a oedd wedi ymwneud â'r un teulu at ei gilydd i ofyn cwestiynau 'beth sy'n bwysig' ynghylch beth a ddigwyddodd i'r teulu, pa gymorth a dderbyniasant ac – yn allweddol – y cwestiwn o effaith, o ran pa wahaniaeth mae'r cymorth a roddwyd wedi ei wneud i'w hiechyd a'u llesiant. Mae'r wybodaeth a gafwyd trwy'r ymarferion Vanguard wedi cael ei defnyddio i arwain yr hyn a wnaed yn y gweithgarwch peilot.

4.7 Mewn ardaloedd eraill, mae'r gwaith o lunio gweledigaeth hefyd wedi profi amrywiaeth o anawsterau, rhwystrau a heriau[20] ar gyfer y system blynyddoedd cynnar dan sylw, sydd, o leiaf i ryw raddau, wedi cael ei ystyried yn y gweithgarwch braenaru dilynol.

4.8 Mae enghreifftiau eraill o ddull seiliedig ar dystiolaeth a grybwyllwyd gan fraenarwyr yn cynnwys:

- Y dystiolaeth o Adolygiadau Ymarfer Plant: *"sydd bob amser yn nodi diffyg cyfathrebu fel anhawster."* (Rhanddeiliad strategol, 2020)
- Mapio gwasanaethau – edrych ar pwy sy'n defnyddio pa wasanaethau, pwy sy'n cyflwyno'r gwasanaethau hyn (sector cyhoeddus, sector preifat neu'r drydydd sector) a lle mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyflwyno, i greu cyfeiriadur byw o wasanaethau a darganfod dyblygu a bylchau, sydd yn ei dro yn gosod sail ar gyfer cynllunio a chomisiynu.
- Ymchwil gyda theuluoedd i werthuso'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau a bylchau mewn cymorth (ee cymorth bwydo o'r fron).
- Datblygu proffiliau cymunedol, gan ddefnyddio StatsCymru a ffynonellau eraill o ddata lleol i adnabod tueddiadau (er enghraifft mewn diogelwch cymunedol neu blismona).
- Fframwaith Rhaglen Plant Iach Cymru a'r defnydd o ganlyniadau FRAIT i arwain gweithgarwch (ar lefel teulu unigol).
- Data parodrwydd i'r ysgol (lleferydd ac iaith, gweithgarwch corfforol).

4.9 Mewn lleiafrif o achosion, mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod y broses wedi bod yn fwy 'organig' – *"darganfod pethau wrth inni fynd ymlaen."* (Rhanddeiliad strategol, 2020) neu ddibynnu ar 'reddf' ynghylch beth mae ar deuluoedd a chymunedau ei angen.

[20] Er enghraifft, asesiadau anghenion lluosog, rhannu annigonol yn digwydd gyda gwybodaeth a data, dulliau anghyson o ddatblygu gweithluoedd a chaffael sgiliau a phontio (sef, cynenedigol i flynyddoedd cynnar, blynyddoedd cynnar i addysg), ymysg eraill.

Tybiaethau am y broses fraenaru

4.10 Mae rhanddeiliaid wedi nodi nifer o dybiaethau a wnaed ynghylch sut y byddai'r rhaglen fraenaru yn gweithio a'r effaith y byddai'n ei gael ar deuluoedd.

4.11 Mae'r tybiaethau a brofwyd yn gywir yn ymwneud yn gyffredinol â chanfyddiadau neu bryderon ynghylch y systemau a phrosesau a oedd ar waith cyn i'r rhaglen gychwyn. Gan fod ardaloedd braenaru wedi bod trwy'r broses o gwmpasu eu gwasanaethau blynyddoedd cynnar presennol, mae'r diffygion a'r angen am newid wedi dod yn fwy amlwg.

4.12 Un o'r pryderon a grybwyllwyd fwyaf cyffredin, ac un roedd ymarferwyr yn ymwybodol ohono yn gyffredinol, oedd bod llawer o deuluoedd sydd angen cymorth yn 'llithro drwy'r rhwyd' gyda rhaglenni presennol a bod angen am adnabod angen yn well a thargedu gwasanaethau. Ar y llaw arall, roedd un rhanddeiliad yn nodi'r broblem o deuluoedd yn defnyddio gwasanaethau efallai'n ddiangen, fel y dangoswyd er enghraifft yn asesiadau lleferydd ac iaith cyffredinol WellComm a wneir ar bob plentyn mewn ardaloedd Dechrau'n Deg gan anwybyddu dangosyddion eraill angen, gyda niferoedd sylweddol yn dod allan yn 'Wyrdd'[21]: *"roeddem yn gwybod bod yn rhaid i wasanaethau newid oherwydd nad ydynt yn addas i'r diben … mae'r peilot wedi profi hyn yn gryfach."* (Rhanddeiliad strategol, 2020)

4.13 Tybiaeth arall a wnaed mewn nifer o ardaloedd yw bod, er mwyn cyflawni 'newid system gyfan', angen i randdeiliaid ymrwymo'n hirdymor a chydnabod yr angen am drawsnewid sylfaenol: *"rydym ynddi am yr hir dymor … nid dros dro … gan gydnabod y bydd y canlyniadau'n cymryd amser i'w gwireddu, er enghraifft, lleihau nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal."* (Rhanddeiliad strategol, 2020)

[21] Mae asesiad Wellcomm yn cynhyrchu adroddiad goleuadau traffig, lle mae "gwyrdd" yn golygu "dim angen ymyrraeth".

4.14 Mae maes arall lle mae tybiaethau wedi cael eu gwneud dros gwrs y rhaglen yn y sail resymegol dros rywfaint o'r gweithgarwch peilot. Mae Adran 6 o'r adroddiad hwn yn trafod cynaliadwyedd tebygol y buddsoddiad yn y rhaglen ac mae llawer o randdeiliaid braenaru wedi amlygu'r angen i ddatblygu prosiectau peilot gyda chanlyniadau cynaliadwy, er enghraifft buddsoddi mewn datblygu a hyfforddi staff a chreu cysylltiadau rhwng gwahanol broffesiynau. Er ei bod yn gyffredinol yn rhy gynnar i wybod a fydd y gweithgareddau hyn yn arwain at newid parhaol, mae rhywfaint o ddangosyddion yma ac acw o hyn yn digwydd. Er enghraifft, mewn un ardal, mae therapydd lleferydd ac iaith wedi cael ei gyllido fel rhan o beilot y rhaglen i uwchsgilio amrywiol weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar ynghylch atgyfeiriadau i therapi lleferydd ac iaith. Er nad yw rôl y therapydd lleferydd ac iaith yn y peilot yn mynd i barhau i flwyddyn ariannol 2021-22, mae'r tîm lleferydd ac iaith wedi cydnabod gwerth y buddsoddiad, o safbwynt atgyfeiriadau cywirach gan weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar ac mae'n mynd i ehangu'r gweithgarwch ar draws yr awdurdod lleol.

4.15 Mewn adrannau cynharach o'r adroddiad hwn, rydym wedi trafod rhai o'r heriau mae braenarwyr wedi eu cael wrth ddenu partneriaid. Mae llawer o hyn i'w briodoli i siniciaeth rhai rhanddeiliaid – neu dybiaethau negyddol ynghylch sut y byddai'r rhaglen yn gweithio neu sut na fyddai'n gweithio – ac mae llawer o'r rhain wedi cael eu herio gan eu profiadau fel braenarwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Tybiaeth o gostau uwch wrth ddarparu gwasanaethau, a gysylltir â phrosesau/modelau newydd a gyflwynwyd gan y rhaglen – mewn gwirionedd, nid yw hyn wedi bod yn wir ac ni bu angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol wario mwy ar gyflawni'r cynlluniau peilot (er bod costau ychwanegol sydd wedi cael eu talu gan gyllid y rhaglen, megis amser staff).
- Pryderon y bydd rhai teuluoedd ar eu colled trwy newidiadau i'r system a gwanhau gwasanaethau – mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch peilot wedi canolbwyntio ar ychwanegedd ac

ychwanegu capasiti i wasanaethau sy'n bod eisoes mewn ardaloedd a oedd wedi gweld tanfuddsoddi yn y gorffennol. Yn yr ardal sydd wedi cyflwyno system flynyddoedd cynnar gyfan gwbl newydd ar draws yr holl awdurdod lleol, mae wedi golygu rhesymoli a chydgysylltu rhaglenni a gwasanaethau i alluogi cymorth i gael ei dargedu'n well i'r rheini sydd ei angen, lle bynnag maent yn byw[22].

- Disgwyliadau o effeithiau cadarnhaol cyfyngedig a'r posibilrwydd o ganlyniadau negyddol (er enghraifft, mwy o bwysau ar staff) – mae rhai cynlluniau peilot eisoes wedi cynhyrchu canlyniadau llesol i ymarferwyr (gan gynnwys, mwy o weithio mewn tîm a chynnydd cysylltiedig mewn ysbrydoliaeth, llai o lwyth gwaith / pwysau ar ymarferwyr prif ffrwd o ganlyniad i fuddsoddiad y cynllun peilot, mwy o rannu gwybodaeth am deuluoedd) ac i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau (llai o ynysu ac unigrwydd yn sgil mwy o weithgarwch gyda staff blynyddoedd cynnar, lleihad mewn asesiadau diangen ee: sgrinio lleferydd ac iaith), er bod cydnabyddiaeth y bydd effeithiau eraill um cymryd mwy o amser i ddod yn amlwg, yn enwedig mewn perthynas â theuluoedd.
- Y gred bod dull seilo o weithio wedi ymwreiddio'n rhy ddwfn i alluogi newid i fodel mwy cydweithredol – er bod problemau o hyd ynghylch integreiddio llawn, mae'r ardaloedd braenaru wedi dangos i raddau helaeth fod parodrwydd ar draws y sector blynyddoedd cynnar (a'r tu hwnt[23]) i ddechrau chwalu seilos a gweithio mewn modd mwy cydweithredol.

[22] Gweler adran 5 am fwy o fanylion.
[23] Er enghraifft, addysg.

5. Gweithredu'r Rhaglen hyd yma

Y rhaglen ar waith o gymharu â'i nodau ac amcanion gwreiddiol

5.1 Mae pob ardal fraenaru wedi gwneud cynnydd tuag at weithredu'r nodau ac amcanion a ddisgrifir yn adran 3. Er nad ydynt wedi datblygu fel y gobeithiwyd ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd Coronafeirws (COVID-19), mae cynlluniau peilot a gychwynnodd yn hydref 2020 wedi cychwyn yn gyflym ddangos arwyddion o lwyddiant o gymharu â'r nodau ac amcanion gwreiddiol.

5.2 Mae camau ymarferol wedi cael eu cymryd gan yr ardaloedd braenaru i gydgysylltu gwasanaethau a oedd, ym marn rhanddeiliaid, wedi mynd ar draws ei gilydd yn sgil presenoldeb rhaglenni lluosog yn gweithredu yn y sector blynyddoedd cynnar. Yr elfennau allweddol sydd wedi bod yn sail yw'r camau hyn yw'r cysylltiadau statudol gan ymwelwyr iechyd o dan Raglen Plant Iach Cymru a'r gwasanaethau helaeth sydd ar gael am gymorth manylach a dwys yn Dechrau'n Deg.

5.3 Yn y mwyafrif o achosion nid yw'r rhaglen integreiddio wedi effeithio ar sut y caiff y rhaglenni blynyddoedd cynnar presennol eu cyflwyno, gyda staff gweithredol yn dweud nad yw wedi gwneud dim, neu fawr ddim, gwahaniaeth yn eu rôl o ddydd i ddydd. Mae hyn yn arbennig o wir am achosion lle mai'r rhaglenni yw ffynhonnell yr elfennau mwyaf effeithiol o ddarpariaeth bresennol blynyddoedd cynnar. Mae Dechrau'n Deg yn enghraifft nodedig gyda gwaith safonol y rhaglen hon yn cael ei weld fel patrwm da ar gyfer integreiddio gwasanaethau yn ehangach. Lle mae newid wedi bod, fe'i gwelir gan staff gweithredol fel rhywbeth sy'n gwella'r cymorth y gallant ei gynnig i deuluoedd.

5.4 Mewn un ardal, mae'r gwahaniaeth rhwng wardiau Dechrau'n Deg a wardiau nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg y nesaf peth i ddim[24] gyda phob teulu mewn ardal gyfan awdurdod lleol yn derbyn yr un

[24] Ac eithrio elfen gofal plant Dechrau'n Deg, sy'n dal i fod ar gael mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn unig.

mynediad at ymwelwyr iechyd a gofal lleferydd ac iaith (yn benodol, cysylltiadau craidd Rhaglen Plant Iach Cymru, ac ymweliad cynenedigol ychwanegol, yn ogystal ag ymweliad yn 20 mis oed ar gyfer asesiad Sgiliau Tyfu[25]). Caiff atgyfeirio at asesiad pellach (ee sgrinio lleferydd ac iaith WellComm) neu gymorth pellach[26] ei wneud trwy sianel atgyfeirio sengl. Caiff asesiad cydnerthedd teulu ei wneud wedyn gan dîm unswydd o weithwyr broceru asesiadau ac adolygiadau sydd wedyn yn datblygu cynllun sengl ar gyfer teulu, a all olygu darpariaeth amlasiantaethol.

5.5 Mae angen adrodd am yr holl raglenni blynyddoedd presennol sydd â ffiniau'n gorgyffwrdd â'r rhaglen integreiddio. Mae hyn wedi achosi baich ar staff i adrodd sawl gwaith, unwaith ar gyfer cynlluniau peilot y rhaglen integreiddio ac unwaith eto ar gyfer y rhaglenni. Lle bo rhaglenni wedi cael eu cyfuno'n llawn – fel yn yr achos a ddisgrifir yn y paragraff uchod – mae problemau o hyd wrth briodoli gweithgarwch i raglenni penodol. Yn weinyddol, mae hyn yn rhwystro integreiddio gwasanaethau yn llawn. Roedd sawl ardal fraenaru yn crybwyll awydd i hyn cael ei symleiddio, trwy gydnabod bod cyflwyno'r rhaglenni hyn mewn modd integredig yn hanfodol i'r rhaglen integreiddio ac felly na ddylai fod angen adrodd ar wahân ar gyfer y lleill yn ogystal.

5.6 Mae'r gweithredu wedi canolbwyntio ar gyflwyno rhaglenni blynyddoedd cynnar mewn ffordd sy'n ymestyn y gwaith i ddiwallu anghenion teuluoedd. Mae pob ardal fraenaru yn treialu cyflwyno cymorth cydlynus i deuluoedd o fewn ardal fwy nag o'r blaen cyn y rhaglen integreiddio. Mae'r ardaloedd hyn yn amrywio mewn maint o fewn y gwahanol ardaloedd braenaru, o awdurdod lleol cyfan i gymunedau unigol ar gyfer cynlluniau peilot mwy lleol. Mae darparu gwasanaethau penodol i deuluoedd yn seiliedig ar anghenion a ddarganfuwyd ac ar atgyfeiriadau. Mae gan un ardal fraenaru lwybr

[25] Mae'r hyn a adnabyddir hefyd fel asesiad SoGS *(Schedule of Growing Skills)* yn rhoi mesur o ddatblygiad plentyn trwy asesu naw maes allweddol: Osgo Goddefol, Osgo Gweithredol, Ymsymudol, Llawdrin, Gweledol, Clyw ac Iaith, Lleferydd ac Iaith, Cymdeithasol Rhyngweithiol a Chymdeithasol Hunan-Ofal.
[26] Mae'n amrywio o gymorth rhiana, iaith a chyfathrebu cynnar ac ymddygiad i gymorth tai ac ariannol.

sengl ar gyfer pob atgyfeiriad ac asesiad tra bod eraill wedi canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant ar sut i gyfeirio achosion yn effeithiol rhwng gwasanaethau.

5.7 Caiff cydleoli ei weld gan rai ardaloedd braenaru fel y ffordd orau o weithio er mwyn cyflawni dull integredig, hyd yn oed pan fod rhaid i raglenni barhau ar wahân. Gobeithir y bydd tîm amlddisgyblaeth mewn amgylchedd a rennir yn creu cysylltiadau rhyng-asiantaethol ac yn hwyluso cyfathrebu. Mae ffactorau allanol wedi rhwystro hyn rhag digwydd hyd yma, gyda phroblemau gydag adeiladau lle bwriedid cydleoli yn ogystal â'r pandemig Coronafeirws (COVID-19) a'r angen i lawer o ymarferwyr weithio o gartref gymaint â phosibl.

5.8 Nid yw cydleoli ffisegol yn ddyhead i bob ardal fraenaru. Un ffactor sydd wedi effeithio ar y penderfyniad hwn yw dwysedd poblogaeth isel, sy'n nodweddiadol i gynlluniau braenaru mewn ardaloedd mwy gwledig, gan wneud cydleoli yn llai manteisiol. Yn yr achosion hyn, mae systemau technoleg gwybodaeth â blaenoriaeth uwch. I eraill, caiff cyfarfodydd asiantaethau lluosog eu trefnu i dynnu ynghyd raglenni cymorth i deuluoedd a chynyddu'r gallu i ymateb i angen.

5.9 Mae'r bwlch lletaf sy'n bod yn y sector blynyddoedd cynnar rhwng gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a gwasanaethau a ddarperir gan fyrddau iechyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd yr holl fraenarwyr o'r farn fod hyn o ganlyniad i ddau sefydliad ar wahân, y naill a'r llall â'i arbenigeddau, blaenoriaethau a systemau gweinyddol ei hun ac roedd rhanddeiliaid mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cydnabod hyn. Yn ôl cyfweliadau â rhanddeiliaid, mae gwrthdaro rhwng ardaloedd byrddau iechyd sy'n ymestyn dros sawl bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a'r angen i gael dull cyson ar draws y cyfan, ac awydd gan ardaloedd braenaru i wyro mewn dulliau sefydledig.

5.10 Mae'r graddau y mae'r ardal fraenaru wedi defnyddio'r dull o ddatblygu ar y cyd rhwng awdurdodau lleol yn amrywio. Y ffactorau pwysicaf yw'r nifer o ardaloedd braenaru o fewn ardal bwrdd iechyd,

a’r ymrwymiad i’r rhaglen integreiddio ar lefel uwch o’r Gwasanaeth Iechyd. Lle bo mwyafrif o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn fraenarwyr o fewn bwrdd iechyd, mae cefnogaeth ar lefel uwch o’r Gwasanaeth Iechyd hefyd yn amlwg ac yn cael ei gwerthfawrogi’n fawr gan randdeiliaid awdurdodau lleol. Mae hyn wedi arwain at y cynlluniau braenaru hynny yn mabwysiadu dulliau tebyg. Mae rhanddeiliaid yn yr achosion hyn yn fodlon fod amrywiad o hyd mewn manylder ar gyfer pob awdurdod lleol, sydd fwyaf addas i’r cyd-destunau mwy lleol.

5.11 Mewn achos arall mae’r dull braenaru wedi cael ei gynllunio’n bennaf gan yr awdurdod lleol. Mae’r rhaglen integreiddio wedi dod â staff iechyd i ffordd o feddwl a oedd eisoes yn cychwyn defnyddio model integredig ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae diffyg ymrwymiad yn dal i fod ar lefel uwch swyddogion byrddau iechyd y Gwasanaeth Iechyd a gaiff ei adlewyrchu mewn petrusder tuag at y dull a gymerir gan awdurdodau lleol cyfagos sydd hefyd o fewn ardal y bwrdd iechyd. Caiff yr achos braenaru ei weld fel rhywbeth unigryw ac mae’r posibilrwydd o gael eu gorfodi i fabwysiadu’r un model yn achos pryder i ardaloedd cyfagos nad ydynt eto yn fraenarwyr.

Sail resymegol dros newidiadau

5.12 Er bod rhaglenni fel Dechrau’n Deg a gaiff eu cyflwyno’n gyfartal ledled Cymru, mae pob un o’r naw ardal fraenaru wedi gwneud amrywiol newidiadau i’w dull gweithredu ar sail eu cyd-destunau unigol. Mae hyn yn gweddu i batrwm y sector blynyddoedd cynnar gan fod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ei ddull ei hun sy’n arwain at hyd at 22 o wahanol drefniadau.

Systemau Technoleg Gwybodaeth

5.13 I hwyluso cyfathrebu rhwng gwasanaethau a sicrhau bod gwybodaeth angenrheidiol ar gael yn gyflym ac yn rhwydd, mae systemau technoleg gwybodaeth newydd wedi cael eu mabwysiadu neu eu treialu. Mae hyn er mwyn symleddio prosesau asesu ac atgyfeirio gan eu gwneud yn fwy effeithlon i’r sector blynyddoedd cynnar ac osgoi

oedi mewn darparu cymorth i deuluoedd mewn angen gan fod angen wedi bod yn gorffennol i ailadrodd ymweliadau asesu gydag asiantaethau lluosog cyn derbyn cymorth. Y nod yw datblygu system un-ffeil y gall yr holl asiantaethau integredig ei defnyddio. Caiff system meddalwedd Capita One ei defnyddio eisoes gan un ardal fraenaru lle caiff integreiddio ei yrru ar lefel yr awdurdod lleol. Mewn ardaloedd braenaru eraill lle mae rhan iechyd yn fwy amlwg, maent yn gobeithio treialu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i'r un diben.

Mwy o fynediad at wasanaethau i'w hatgyfeirio gan ymwelwyr iechyd

5.14 Trwy ymweliadau statudol, mae gan ymwelwyr iechyd gysylltiad rheolaidd a syml â phobl plentyn bach yng Nghymru. Mae Dechrau'n Deg eisoes yn cynnig gwasanaethau ehangach i'w hatgyfeirio gan ymwelwyr iechyd sy'n creu, yng ngeiriau un rhanddeiliad, *"gwasanaeth sy'n gwahaniaethu"* (Rhanddeiliad gweithredol, 2021). Mae creu'r cyfle i bob ymwelydd iechyd fanteisio ar yr un gwasanaethau manylach a dwys yn dod â y ddwy gangen o waith ymwelwyr iechyd at ei gilydd mewn cam pwysig o integreiddio.

Llwythi achosion cyfun ymwelwyr iechyd

5.15 Fel arfer, mae gan ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg nifer llai o deuluoedd ar eu llwyth achosion i gydnabod y gyfran uwch ohonynt sy'n derbyn cymorth manylach neu ddwys. Gyda'r newidiadau a wnaed i'r mynediad at wasanaethau manylach ac uwch mewn rhai cynlluniau peilot, mae cynnydd yn y gyfran o deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg sy'n eu derbyn. I wneud y llwythi achosion sy'n deillio o hynny yn decach ar staff unigol, mae gwahanol fesurau wedi cael eu cymryd. Lle bo gweithgarwch cynllun peilot wedi ceisio dileu'r gwahaniaeth mewn rôl swydd rhwng ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg ac ymwelydd iechyd cyffredinol, mae llwythi achosion wedi cael eu hailddyrannu i adlewyrchu ardaloedd practis meddygon

teulu[27]. Mewn ardaloedd eraill mae'r prosesau wedi cael eu cyflawni'n bennaf trwy fodel daearyddol, gydag ardaloedd o fewn cynlluniau peilot yn cael eu dyrannu i ymwelwyr iechyd, boed hwy'n rhai Dechrau'n Deg neu beidio o'r blaen. Dull gwahanol arall a gymerwyd gan ardal fraenaru oedd dyrannu ymwelwyr iechyd ychwanegol i ardal cynllun peilot gan ddefnyddio cyllid y cynllun peilot, a darparu capasiti ychwanegol i'r ymwelwyr iechyd (craidd) a oedd yno eisoes. Mewn rhai achosion, mae wedi golygu cymryd rhannau o lwyth achosion ac mewn achosion eraill, darparu cymorth ychwanegol i deuluoedd sydd angen cymorth (ee mynd i'r toiled neu ddiddyfnu), sydd y tu hwnt i gapasiti ymwelwyr iechyd presennol ei ddarparu.

5.16 Mae un ardal fraenaru sydd heb ailddyrannu llwyth achosion er gwaethaf ehangu mynediad at wasanaethau manylach a dwys. Y rheswm dros hyn yw pryder gan uwch-reolwyr o fewn yr awdurdod lleol bod y rhaglen integreiddio yn un dros-dro, barn sy'n cael ei chryfhau gan drefniadau ariannu tymor byr. Y farn oedd y byddai newid y pwyntiau cyswllt gyda theuluoedd yn gynnar, dim ond iddynt gael eu newid yn ôl flwyddyn yn ddiweddarach yn gorchfygu'r diben, ac na fyddai'n arwain at ymdriniaeth gydlynus na chyson o'r blynyddoedd cynnar. Mae hyn wedi arwain at effaith cyfyngedig ar staff o fewn cymuned y cynllun peilot sy'n cyflwyno Dechrau'n Deg, ond mae wedi golygu bod ymwelwyr iechyd cyffredinol yn teimlo o dan bwysau wrth iddynt gyflwyno gwasanaethau manylach o fewn y cynllun peilot a gwasanaethau heb eu newid y tu allan i gymuned y cynllun peilot. Y sefyllfa yn gynnar yn 2021 oedd bod mwy o ymrwymiad ar lefelau uwch-swyddogion awdurdodau lleol, ond dim cynlluniau i gyfuno llwythi achosion wrth i'r cynllun peilot ehangu i gymunedau newydd sydd heb bresenoldeb Dechrau'n Deg.

Adleoli staff trwy secondiad

5.17 Mae amryw o ardaloedd wedi gallu rhoi staff arbenigol ar waith i gefnogi gweithgareddau cynlluniau peilot trwy secondiad. Mae cyllid

[27] Mae hyn wedi arwain at rai (ymwelwyr iechyd blaenorol 'Dechrau'n Deg') yn cymryd llwyth achosion mwy a rhai (ymwelwyr iechyd 'cyffredinol' blaenorol) yn cael llwyth achosion llai.

dros dro, gyda symiau'n newid yn sgil effaith Coronafeirws (COVID-19), wedi gwneud hyn yn angenrheidiol. Yn ogystal, mae prinder staff wedi golygu bod y rhain yn aml heb fod yn swyddi llawn-amser, sy'n cyfyngu ar y rôl y gall yr arbenigwyr hyn ei chwarae. Mae un ardal fraenaru wedi goresgyn hyn yn achos lleferydd ac iaith gydag hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan therapydd lleferydd ac iaith[28] i aelodau eraill o staff ar atgyfeiriadau cywir i wasanaethau lleferydd ac iaith a darparu cymorth lefel-isel lleferydd ac iaith, yn hytrach na dibynnu ar adnoddau cyfyngedig i ymdrin â phob achos yn uniongyrchol yn yr ardal dreialu. Mae hyn yn cael yr effaith o adeiladu arbenigedd y gweithlu ehangach gan osgoi cynyddu (dros dro) therapi ffurfiol iaith a lleferydd yn ardal y cynllun peilot, na fyddai ond yn cael ei dynnu'n ôl ar ddiwedd cyllid y rhaglen.

5.18 Mewn ardaloedd braenaru eraill mae pryder y bydd natur dros dro y secondiad yn arwain at staff profiadol naill ai'n gadael cyn bod gweithgarwch y cynllun peilot wedi'i gwblhau, neu nad ydynt yn cael eu denu i'r swyddi, yn sgil pwysau allanol sy'n rhaid i staff eu hystyried mewn symudiadau gyrfa.

Cydnawsedd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

5.19 Mae gweithgareddau braenaru yn gydnaws iawn â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a barn rhanddeiliaid yw bod yn rhaid i'r rhaglen fod yn gydnaws â rhaglenni blynyddoedd cynnar gan fod cyfrifoldeb statudol i'w darparu. Mae'r un amcanion sylfaenol yn gyffredin i'r rholl raglenni blynyddoedd cynnar a'r rhaglen integreiddio, sef i blant gael y dechrau gorau mewn bywyd a bod yn barod i'r ysgol a chamau eraill bywyd yn y dyfodol.

Plant Iach Cymru

5.20 Mae cyffredinoliaeth gynyddol Rhaglen Plant Iach Cymru yn amlwg i'r holl fraenarwyr. Mae'r athroniaeth yn amlwg yn mynegi cymhellion a nodau gweithgarwch treialu, y dylai pob teulu gael mynediad at yr un gwasanaethau a gaiff eu darparu yn seiliedig ar angen. I'r mwyafrif o

[28] Cyflogwyd yn rhan-amser drwy'r cynllun peilot.

blant, mae'r gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael yn diwallu eu hanghenion, ond i rai mae cymorth manylach neu ddwys yn ofynnol. Trwy'r rhaglen integreiddio, mae ardaloedd braenaru yn ceisio sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gydgysylltiedig, i'w gwneud yn hawdd eu cyrraedd pan fo'u hangen, ac ar gael i bawb sydd angen eu defnyddio.

Teuluoedd yn Gyntaf

5.21 Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi teuluoedd mewn angen ac fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol, gan alluogi i'r dull gael ei addasu ar gyfer ardaloedd lleol ledled Cymru. Mae'n gorgyffwrdd â'r sector blynyddoedd cynnar yn uniongyrchol wrth gefnogi plant, ac yn anuniongyrchol wrth gefnogi aelodau eraill o'r teulu sydd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar blant. Mae ardaloedd braenaru wedi darganfod y gall eu gwaith integreiddio blynyddoedd cynnar elwa'n fawr o gydgysylltu â'r gwasanaethau teuluoedd ehangach hyn. Enghraifft o hyn yw lle mae un ardal fraenaru wedi rhoi gweithiwr Tadau ar waith sydd wedi helpu mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl gwael ac alcoholiaeth mewn ardal beilot. Mae cynllun peilot ardal fraenaru arall wedi mynd â hyn ymhellach fyth, gan greu cynllun peilot integredig sy'n cynnwys pob gwasanaeth hyd at 25 oed.

Dechrau'n Deg

5.22 Yng ngeiriau un rhanddeiliad *"Ers blynyddoedd rydym wedi gweld manteision rhaglen Dechrau'n Deg, fe wyddom ei bod yn gweithio. Yn anffodus, nid yw Dechrau'n Deg ar gael i bawb"* (rhanddeiliad strategol, 2020). Mae amryw o ardaloedd braenaru yn treialu darparu'r mwyafrif o wasanaethau Dechrau'n Deg ar sail gyffredinol i bawb, gan gychwyn yr ehangu trwy ymestyn ffiniau i ardal ddaearyddol benodol. Mae'r rheswm dros wneud hynny yr un fath i bawb, sef ymateb i angen sy'n cyfateb i'r holl feini prawf ond sy'n bod y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Mewn rhai ardaloedd, aed ati'n fwriadol i chwilio am staff sydd â phrofiad o Dechrau'n Deg i gymryd rhan yn y cynlluniau peilot ar sail cryfder y model. Un o elfennau

allweddol Dechrau'n Deg na chaiff ei darparu gan weithgarwch peilot yn y rhaglen integreiddio yw gofal plant a gyllidir, rhywbeth roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei hepgor yn benodol. Mae hyn wedi achosi rhai cwynion gan deuluoedd gan mai dyma'n aml yw'r gwasanaeth sydd arnynt ei eisiau fwyaf. Mewn ymateb, mae un ardal fraenaru wedi ariannu lleoliadau gofal plant mewn lleoliadau o ansawdd Dechrau'n Deg ar wahân er mwyn sicrhau mynediad i bawb, ac mae ardal fraenaru arall yn edrych ar wneud yr un fath. Nid oes dim effeithiau y sylwyd arnynt o fewn darpariaeth Dechrau'n Deg oherwydd mae'r cynlluniau peilot integreiddio a'r status quo yn dal ar waith i deuluoedd nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau ond rhai o dan Dechrau'n Deg. Ymddengys fod hyn yn cynnwys yr ardal fraenaru sydd wedi dileu'n llwyr y gwahaniaeth rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd eraill, gan fod y cymorth yn seiliedig ar angen a adnabuwyd ar gyfer pob teulu.[29]

Cymru Iachach

5.23 Mae'r holl ardaloedd braenaru yn gweithio gyda'r gwerthoedd systemau cyfan fel y'u nodir yn Cymru Iachach, gan ddatblygu a hyrwyddo diwylliant o weithio gyda'i gilydd o fynd ati'n fwriadol i gefnogi pobl. Nod y newidiadau a wnaed drwy'r rhaglen yw cydgysylltu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o gwmpas anghenion a dewisiadau unigolion. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd yn canolbwyntio ar y person gan ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd a Llywodraeth Leol yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cysylltiadau sy'n cyfrannu at y Weledigaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

5.24 Mae'r newidiadau a wnaed gan yr ardaloedd braenaru yn gwbl gyson â'r nodau llesiant a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellir gweld enghreifftiau clir o hyn lle mae gweithgareddau cynlluniau peilot wedi gwneud cymunedau yn fwy cydlynus trwy gael

[29] Ar sail yr wybodaeth bresennol. Nid yw'r gwerthusiad o'r cynllun peilot lleol wedi ei gwblhau eto.

gwared ar wahaniaethau mewn gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae gallu cyrraedd mwy o deuluoedd mewn angen yn anelu at y nodau o adeiladu Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, a thrwy beidio â chreu dibyniaeth, Cymru fwy cydnerth. Gobaith y braenarwyr yw y bydd hyn yn arwain at Gymru fwy llewyrchus gyda diwylliant bywiog o gymorth.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

5.25 Pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw llesiant, pobl, partneriaeth ac integreiddio, ac atal. Mae cydnawsedd y rhaglen integreiddio â 'llesiant' wedi cael ei drafod uchod ac mae'n ganlyniad allweddol i'r sector blynyddoedd cynnar fel cyfanrwydd. Mae'r rhaglen yn gyson â'r egwyddor 'pobl 'gan fod yr holl ardaloedd braenaru yn asesu anghenion unigol fel y prif sail wrth ddarparu gwasanaethau. Mae integreiddio gwasanaethau yn rhan allweddol o gyflawni'r ddeddf a dyma brif ddiben y rhaglen. Mae ymyraethau a gaiff eu cyflwyno'n llwyddiannus mewn blynyddoedd cynnar yn hanofodol ar gyfer yr egwyddor 'atal' gan ei fod yn rhwystro problemau rhag cronni ac arwain at yr angen am gymorth ffurfiol trwy, er enghraifft, ysgolion, yr heddlu a gwasanaethau eraill yn ddiweddarach. Mae gweithgarwch y cynlluniau peilot mewn rhai ardaloedd yn cysylltu â grwpiau gwirfoddol sy'n helpu cyflawni'r angen i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol sy'n cynnwys pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Cydgysylltu rhaglenni o fewn ardaloedd braenaru

5.26 Mae amryw o fraenarwyr wedi mynegi awydd am well cydgysylltu a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd orau o gysylltu gwahanol raglenni â'i gilydd. Yn aml, nid oes fawr o gyfeiriad at y canllawiau presennol mewn rhaglenni eraill, er enghraifft ni chaiff lleferydd ac iaith ei grybwyll yn Teuluoedd yn Gyntaf, felly nid oes dim arwydd o beth fydd effaith y Cynllun Gweithredu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar y rhaglen hon. Oherwydd hyn, mae rhaglenni blynyddoedd cynnar wedi gweithredu ar wahân i'w gilydd o'r blaen, ac

yn parhau i wneud hynny mewn rhai ardaloedd braenaru yn gyfochrog â'r rhaglen integreiddio. Mewn rhai achosion, mae'r rhaglen integreiddio yn llenwi bylchau mewn rhaglenni, er enghraifft, cyflwyno pwynt cyswllt newydd i ymwelwyr iechyd yn ychwanegol at y rheini a bennir yn Rhaglen Plant Iach Cymru, sy'n dod ar gam pwysig i ddatblygiad lleferydd ac iaith ac i ddarganfod unrhyw broblemau.

5.27 Roedd y braenarwyr yn nodi mai'r prif rwystr rhag integreiddio eu rhaglenni blynyddoedd cynnar yn llawn oedd yr anallu i adrodd mewn modd integredig. Roedd yr angen i adrodd metrigau ar gyfer y rhaglenni unigol ar wahân, yn ogystal â gweithgarwch y cynlluniau peilot, yn dyblygu gwaith i staff. Mae cadw systemau monitro ar wahân wedi golygu cadw gweithgareddau ar wahân i raddau helaeth, gydag unrhyw drosglwyddo darpariaeth gwasanaethau yn creu ansicrwydd ynghylch i ba ffrwd ariannol y dylid priodoli hyn wrth adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae un ardal fraenaru wedi ymateb i hyn trwy neilltuo staff gweinyddol ar gyfer gwaith adrodd, sydd ar wahân i'r gwaith mae staff gweithredol yn ei gofnodi. Yr unig ffordd mae hyn wedi bod yn bosibl yw trwy ailstrwythro ledled yr awdurdod lleol ar rywfaint o gost, ar wahân i'r rhaglen.

Dulliau amlasiantaethol effeithiol

5.28 Lle gwelir dulliau amlasiantaethol effeithiol, mae ymdrech ddygn wedi cael ei gwneud i sicrhau bod cyfathrebu ac ymrwymiad uwch-swyddogion i'r rhaglen integreiddio yn flaenoriaeth. Mae'r dulliau amlasiantaethol mwyaf datblygedig wedi bod yn llwyddiannus wrth ymgorffori iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), gwasanaethau cymdeithasol, tai, addysg a gofal plant. Mae hyn wedi arwain at lwybrau cliriach ar gyfer atgyfeirio, gyda gweithredu effeithiol yn digwydd yn gynt nag oedd yn digwydd cyn y rhaglen. Mae cynlluniau peilot sydd wedi neilltuo amser ar gyfer cyfarfodydd amlasiantaethol i drafod achosion, gyda chynrychiolwyr o wasanaethau nad oes efallai eu hangen ym mhob achos unigol a drafodir, wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth rhyng-asiantaethol ac ambell dro wedi datgelu cafnyddiadau cudd a chynigion o gymorth. I ardaloedd braenaru eraill,

mae gwaith mapio wedi codi ymwybyddiaeth o feysydd gwasanaeth eraill, gan annog gweithio mewn tîm a datblygu'r berthynas rhwng staff a'i gilydd.

5.29 Mae rhwystrau'n bod lle bo gan wasanaethau cymdeithasol fynediad at eu tîm rhianta, ar wahân, eu hunain, sy'n allgáu mynediad at wasanaethau a ddarperir gan gynlluniau peilot yr ardaloedd braenaru i deuluoedd sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol, gan rwystro dull integredig. Mae diffyg cyd-drafod tebyg gydag uwch-reolwyr mewn bydwreigiaeth yn sawl ardal fraenaru, gan arwain at gyfathrebu gwael ac allgáu bydwragedd i bob pwrpas o weithgarwch cynlluniau peilot. Hyd yn hyn, nid yw'r ardaloedd braenaru hynny wedi bod yn llwyddiannus wrth oresgyn y rhwystrau hyn.

5.30 Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi ymddangos yn gyndyn o ymwneud â gweithgarwch braenaru, er gwaethaf bod mewn sefyllfa i elwa ohono. Lle bo ysgolion wedi ymuno, mae hyn o ganlyniad i'w profiad o'r rhaglen wrth gymryd rhan ym mhroses werthuso'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth a chyflwyno unigolion allweddol i'w gilydd.

5.31 Mae'r sector gwirfoddol wedi cael ei gynnwys yn llwyddiannus gan fraenarwyr sydd wedi mynd ati i geisio gwneud hynny. Mae hyn wedi arwain at y sylweddoliad fod gwasanaethau heb fynediad at deuluoedd, yn union fel mae teuluoedd heb fynediad at wasanaethau gan yr awdurdod lleol na'r Gwasanaeth Iechyd. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn ardal y cynllun peilot yn cyfeirio teuluoedd at wasanaethau a gyflwynir trwy'r sector gwirfoddol[30].

5.32 Mae elfen fregus yn y dulliau amlasiantaethol hyn gan eu bod yn ddibynnol ar unigolion allweddol a'r cysylltiadau maent wedi eu creu ar draws asiantaethau. Mae hyn yn debyg i'r hyn oedd cyn y rhaglen, ac mae'n peri risg i dulliau amlasiantaethol trwy drosiant staff. Nid yw'r dull yn systematig eto ac mae'n dibynnu ar wybodaeth unigolion i

[30] Er enghraifft, Gweithredu dros Blant.

raddau helaeth. Mae gweithgareddau'r ardaloedd braenaru wedi ehangu'n fawr y cysylltiadau sydd ar gael, na fyddai wedi digwydd heb y rhaglen integreiddio. Mae natur bersonol gweithio amlasiantaethol, fodd bynnag, yn golygu y byddai'n anodd gwrthdroi effeithiau'r rhaglen ac mae rhai rhanddeiliaid o'r farn eu bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor er bod hyn yn ddibynnol ar barhad cyfraniad staff allweddol.

Trefnu gwasanaethau

5.33 Ceisiwyd gwella trefniadaeth gwasanaethau trwy hyfforddiant a rhannu gwybodaeth. Mae hyfforddiant wedi cael i roi i staff sy'n ymwneud â gweithgareddau peilot yn y graddau mae gwasanaethau ar gael a'r ffordd orau o gyfathrebu rhwng gwahanol asiantaethau a'i gilydd. Mae rhannu gwybodaeth yn digwydd naill ai trwy systemau a chyfarfodydd ffurfiol, neu trwy greu cysylltiadau unigol. Mae terfynau i raddau newid sefydliadau, heb fawr o effaith yn cael ei weld ar draws y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ehangach o ran cydgysylltu, cynllunio a chomisiynu, gan fod yr holl gynlluniau peilot yn digwydd mewn cymunedau dethol, ac nid ar draws holl ardal y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

Llywodraethu a chydweithio

5.34 Mewn llawer o achosion mae mwy o gydweithio o fewn awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae enghreifftiau cyfyngedig o fwy o gyfathrebu, a chynllunio a gweithio ar y cyd. Mae gweithgarwch ymwelwyr iechyd â chysylltiad agosach â gwasanaethau awdurdodau lleol nag o'r blaen, ac mae mwy o gydgysylltu rhwng Dechrau'n Deg a thimau iechyd cyffredinol nag oedd cyn y rhaglen. O'r cychwyn, mae rhai ardaloedd braenaru wedi elwa o ymrwymiad uwch-swyddogion gan ddatblygu dull cydweithredol o'r cychwyn. Mae cysylltiadau proffesiynol blaenorol wedi helpu yn hyn.

5.35 Lle na ddigwyddodd ymrwymiad o'r cychwyn, mae mwy o anhawster wedi bod wrth ddatblygu dull cydweithredol yn ddiweddarach, gyda

pherchnogaeth yn aros mewn meysydd penodol, yn hytrach na'n gyffredinol rhwng pawb. Mae haenau lluosog o reolwyr yn dal i fod mewn ardaloedd lle mae gwell cydweithredu ac mae amrywiadau rhyngddynt wedi gweithredu fel rhwystrau, gan lesteirio cydweithio.

5.36 Mae llawer o'r farn nad yw trefniadau llywodraethu ar hyn o bryd mor effeithiol ac y gallent fod, gyda rhai rhanddeiliaid gweithredol heb fod yn gwybod am y strwythurau llywodraethu a oedd yn bod yn eu hardal fraenaru. Mae hyn wedi cael ei waethygu gan y Coronafeirws (COVID-19) sydd wedi rhwystro grwpiau llywio rhag cyfarfod mor aml ag y bwriadwyd mewn rhai achosion. Mewn ardaloedd eraill nid yw presenoldeb yr uwch-reolwyr gofynnol wedi bod ar y graddau y dymunwyd.

Dysgu ar y cyd ymysg braenarwyr

5.37 Er bod un ardal fraenaru ymhellach ar y blaen yn y rhaglen ar y cychwyn, a bod eraill wedi elwa ar rai gwersi ganddi, fe wnaeth amgylchiadau unigol yr ardaloedd braenaru yn bur gyflym chwarae rôl fwy wrth ddatblygu dulliau seiliedig ar wahanol flaenoriaethau'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae gwaddol rhaglenni a chynlluniau peilot blaenorol yn gwneud cyd-destun pob un yn anhygoel o benodol.

5.38 Y farn oedd bod y cyfarfodydd o fraenarwyr a gynhaliwyd wyneb yn wyneb cyn y Coronafeirws (COVID-19) yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu profiadau. Mae cyfathrebu rhithiol wedi parhau ond heb drefniadaeth ffurfiol. Mae gwybodaeth o'r gwersi a ddysgwyd gan ardaloedd braenaru eraill wedi ei gyfyngu i randdeiliaid strategol blaenllaw. Mewn un achos, mae'r defnydd helaeth o Vanguard i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth gan rai braenarwyr wedi cael ei nodi fel llwyddiant y mae ardal fraenaru arall yn dymuno ei ddilyn. Mewn enghreifftiau eraill, roedd rhanddeiliaid yn gwneud sylwadau ar gyd-destunau amrywiol yr ardaloedd braenaru fel rhywbeth a oedd yn llesteirio dysgu am lawer o ddulliau y gellid eu mabwysiadu. Nid oes dim teimlad ymysg y braenarwyr fod eraill yn gwneud camgymeriadau

gyda'r dulliau, dim ond ansicrwydd ynghylch eu perthnasedd ehangach. Mae rhanddeiliaid strategol yn bryderus bod pen draw i'r hyn y gall eraill ei ddysgu o'u profiadau ac na fyddai gorfodi model gan un ar eraill yn cynhyrchu'r un canlyniadau. Daw hyn o ddealltwriaeth y byddai, hyd yn oed pe bai gwahanol ardaloedd yn mynd trwy'r un prosesau cynnar, angen mabwysiadu gwahanol ddulliau i ddiwallu anghenion lleol.

Newid a hwylusir gan y rhaglen

5.39 I rai ymarferwyr roedd awydd a gallu am ddull mwy integredig cyn y rhaglen. Mae'r broses hon wedi cael ei chyflymu'n sylweddol trwy ddod yn ardal fraenaru. Mae perthynas glir rhwng graddau'r symudiad tuag at integreiddio cyn y rhaglen a graddau'r newid a weithredwyd oddi tani. Yr eithriad i hyn oedd yr ardal fraenaru roedd ei dull wedi cael ei integreiddio fwyaf cyn y rhaglen. Yma, mae'r rhaglen wedi cael iechyd wedi'i integreiddio. Er gwaethaf hyn, nid yw'r ffyrdd o weithio o fewn ardal y cynllun peilot wedi newid fawr o'r hyn a gynlluniwyd cyn y rhaglen. Nid yw wedi creu unrhyw newid y tu allan i ardal y cynllun peilot ychwaith.

Rhannu'r arferion gorau

5.40 Mae ffordd fwy effeithiol o rannu'r arferion gorau wedi dod i'r amlwg yn yr ardaloedd braenaru. Mae hyn wedi digwydd yn anffurfiol, gyda rhanddeiliaid gweithredol yn datblygu cysylltiadau trwy weithio'n agos gyda'i gilydd ar draws rhaglenni blynyddoedd cynnar, ac yn fwy ffurfiol gyda rhanddeiliaid strategol yn creu systemau y gellir cyfathrebu'n swyddogol drwyddynt. Mae'r systemau hyn yn aml wedi gweithredu i roi elfen swyddogol i gysylltiadau anffurfiol a oedd yn bod o'r blaen.

5.41 Maent wedi cael eu cynorthwyo gan hyfforddiant cyfathrebu cydweithredol ac ymdrechion eraill gan unigolion i adeiladu ar ddatblygiad cychwynnol cyd-ddealltwriaeth a chydweledigaeth. Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at werth dysgu'r derminoleg a ddefnyddir gan wasanaethau eraill fel ffordd o hwyluso cyfathrebu. Er enghraifft, mewn un ardal fraenaru, roedd ymwelwyr iechyd a gweithwyr

cymdeithasol yn cyfeirio at y fantais o gymryd rhan mewn cwrs hyfforddi gyda'i gilydd, gan ei fod yn eu galluogi i ddeall dull, pryderon a therminoleg y llall mewn modd mwy cynhwysfawr.

Systemau monitro

5.42 Wrthi'n cael eu datblygu mae'r systemau monitro ar gyfer gweithgarwch cynlluniau peilot, gan adlewyrchu'r camau cynnar mae'r ardaloedd braenaru arnynt ar hyn o bryd. Mae'r monitro sydd ar waith yn seiliedig ar asesiad o'r hyn a ystyrir fel gwybodaeth hanfodol ar gyfer pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r mwyafrif yn anelu at ddatblygu system un-ffeil, lle gall pob un o sawl asiantaeth gyfrannu a chyrchu ffynhonnell sengl o wybodaeth am deulu. Mae'r gofynion i adrodd am sawl rhaglen ar yr un pryd yn creu anawsterau yn hyn gan ei fod yn dyblygu gofynion monitro mewn gwahanol ffurfiau. Mae hyn wedi arwain mewn rhai achosion at gasglu gwybodaeth yn dal i ddigwydd yn ddigyswllt rhwng gwasanaethau.

Rôl yr arweinydd prosiect

5.43 Caiff rôl yr arweinydd prosiect ym mwrdd gwasanaethau cyhoeddus pob ardal fraenaru ei gweld fel elfen hanfodol o'r rhaglen. Mae hyn oherwydd ei bod yn cael ei hariannu'n uniongyrchol gan y rhaglen a'i bod yn darparu person i ganolbwyntio ar gael pobl i weithio gyda'i gilydd. Ym mhob achos mae'r arweinydd prosiect wedi cael ei benodi i swydd is ei safle na'r hyn a ddisgwylid ar y cychwyn gan y gwerthusiad. Mae'r cyfrifoldeb allweddol dros yrru integreiddio wedyn wedi gorwedd gyda rhanddeiliad strategol mewn safle uwch yn yr ardal fraenaru, ac mewn rhai achosion eu gyriant unigol sydd wedi bod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd.

5.44 Mae'r arweinydd prosiect wedi cael y lleiaf o ddylanwad yn y lleoedd roedd dulliau integredig wedi bod yn fwy datblygedig cyn y rhaglen. Lle mae'r arweinydd prosiect wedi cael ei secondio o'r gwasanaeth iechyd mae gwell cydweithio wedi bod rhwng gwasanaethau'r awdurdod lleol ac iechyd, ond ar draul ymddangos fel dull rhanbarthol, yn hytrach nag ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

O fewn sefydliadau awdurdod lleol, mae'r adran lle mae'r arweinydd prosiect yn eistedd hefyd yn effeithio ar y canfyddiadau o'r rhaglen. Mewn un ardal fraenaru roedd y rhaglen yn cael ei gweld ar y cychwyn fel un a oedd yn berthnasol i Dechrau'n Deg yn unig, gan fod yr arweinydd prosiect wedi'i leoli o fewn yr adran honno. Mae hyn wedi arwain at wrthsefyll cychwynnol i ymdrechion integreiddio hyd nes cafodd mwy o uwch-reolwyr ar draws yr awdurdod lleol eu hargyhoeddi o'r angen am integreiddio trwy hyfforddiant ac ymyrraeth gan gydweithwyr o'r bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol eraill.

5.45 Mae rhai ardaloedd braenaru wedi penodi staff profiadol o fewn y sector blynyddoedd cynnar fel arweinwyr prosiect. Mantais hyn oedd bod llawer o'r cysylltiadau rhwng asiantaethau a oedd yn bod yn anffurfiol cyn y rhaglen wedi helpu integreiddio a dod yn fwy effeithlon wrth gael eu gwneud yn fwy ffurfiol. Mae arweinwyr prosiect sydd â phrofiad blaenorol eisoes yn adnabod ffigurau allweddol i ddod â hwy at ei gilydd i integreiddio ac maent yn gyfarwydd â'r rhwystrau a gwahanol ffyrdd o weithio. Hyd yma mae hyn wedi bod yn effeithiol heb fawr ddim tystiolaeth o wybodaeth flaenorol yn effeithio'n negyddol ar y rhaglen.

5.46 Mae ardaloedd braenaru eraill wedi recriwtio staff sy'n newydd i'r sector blynyddoedd cynnar, ac mewn un achos yn newydd i ardal y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal. Teimlad yr arweinydd prosiectau a'i reolwr llinell oedd bod hyn yn arwain at gyfnod o ddysgu lle'r oedd yn rhaid i'r arweinydd prosiect ddod i arfer yn gyflym â'r systemau a'r ffyrdd o weithio a oedd eisoes yn eu lle o fewn yr ardal fraenaru. Cryfder y dull hwn oedd gallu'r arweinydd prosiect i herio arferion sefydledig a gweithredu fel llais newydd o'r tu allan i'r sector.

5.47 Mae pryder gan arweinwyr prosiect a rhanddeiliaid eraill yn yr ardaloedd braenaru ynghylch cadw staff mewn swyddi arweinwyr prosiect. Mae profiad sylweddol wedi cael ei ddatblygu gan arweinwyr prosiect hyn yma yn y rhaglen ac mae risg y bydd hyn yn cael ei golli. Nid yw trefniadau ariannu blynyddol yn sicr, ac mae cadarnhad o gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 wedi dod yn hwyr. Mae dwy

ardal fraenaru wedi newid eu harweinydd prosiect hyd yma yn y rhaglen ac mae hyn, yn ddealladwy, wedi effeithio ar gynnydd. Mae un arweinydd prosiect yn dal yn ei swydd dim ond yn sgil gohirio derbyn swydd arall hyd nes y daeth cadarnhad o gyllid drwodd. Mae swyddi dros dro, law yn llaw ag oriau rhan-amser i rai, wedi arwain at anhawster wrth ddenu staff fel arweinwyr prosiect.

6. Arwyddion cynnar o lwyddiant

6.1 Wrth benderfynu llwyddiant cymharol yr ardaloedd braenaru yn y ffordd maent yn gweithredu'r rhaglen integreiddio, mae'n bwysig cadw mewn cof fod y gweithredu yn dal yn y camau cynnar iawn ac felly mae llawer o'r buddion disgwyliedig heb eu gwireddu eto. Er hynny, ar draws yr ardaloedd braenaru yng Nghymru mae amryw o arwyddion o lwyddiant yn dod i'r amlwg, er bod y rhain yn amrywiol.

Cydgrynhoi gwasanaethau cymorth

6.2 Mae ardaloedd braenaru wedi gwneud cynnydd wrth gydgrynhoi gwasanaethau cymorth, er mai ond megis dechrau mae'r daith tuag at ddarpariaeth gwbl integredig, cydgysylltiedig o wasanaethau blynyddoedd cynnar. Ar draws yr ardaloedd braenaru mae parodrwydd sylweddol gan asiantaethau i gydweithio i gyflawni canlyniadau gwell i'r plentyn a'r teulu. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cydweithio rhwng asiantaethau wedi ymestyn i gyfarfod ar brosiectau y tu allan i'r rhaglen integreiddio, megis y Gronfa Datblygiad Plant, gan ddangos y symudiad tuag at ddarpariaeth gydgysylltiedig. Er hynny, mae rhanddeiliaid ar lefel weithredol a strategol wedi mynegi'r angen hefyd am i wasanaethau craidd, megis ymwelwyr iechyd a bydwragedd, gael eu integreiddio'n llawnach i weithgarwch braenaru.

Symleiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau

6.3 Mae consensws ymysg rhanddeiliaid nad yw ardaloedd braenaru wedi symleiddio eu darpariaeth o wasanaethau yn llwyr hyd yma. Barn staff gweithredol oedd, er bod mwy o gydweithio ar lefel 'llawr gwlad', mae unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud â braenaru yn ychwanegol at eu rolau presennol, yn hytrach na'i fod wedi'i integreiddio'n llawn i ffordd newydd o weithio. Adlewyrchir hyn ar lefel genedlaethol, lle mae diffyg cysondeb ar sut mae rhaglenni'n cysylltu â'i gilydd. Mewn rhai achosion, nid oes dim cyfeiriad at wasanaethau perthnasol yng nghanllawiau'r amrywiol raglenni, gan beri bod eu cysoni yn her.

Gwireddu effeithlonrwydd

6.4 Mae'n rhy gynnar yn y broses o weithredu'r rhaglen i weld gwireddu helaeth o effeithlonrwydd yn deillio o'r gwaith a gyflawnir ar draws y naw ardal sy'n cymryd rhan yn y cynllun braenaru yng Nghymru. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi eu hawydd y bydd gwasanaethau awdurdodau lleol, trwy'r newidiadau a weithredir yn sgil y gwaith blynyddoedd cynnar, yn gallu cydweithio'n agos a lleihau pwysau ar wasanaethau megis ymwelwyr iechyd, gan ddarparu gwell adnoddau i'r teulu yn y pen draw. Yn wir, mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn sicr wedi gwella mewn llawer o ardaloedd ac wedi arwain at fwy o ymrwymiad i'r cynllun peilot gan dimau cyffredinol ymwelwyr iechyd.

6.5 Mae cyfarfodydd amlasiantaethol wedi eu cynnal ar draws ardaloedd braenaru ac maent wedi gweithredu fel modd o gynyddu'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael i deuluoedd, wrth benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda'r teulu ar agweddau penodol o angen. Mae hyn, yn ei dro, wedi lleihau'r graddau o ddyblygu ar draws gwahanol wasanaethau.

Newidiadau i wasanaethau yn effeithio'n uniongyrchol ar deuluoedd

6.6 Yn ardaloedd peilot y cynlluniau braenaru, mae teuluoedd wedi profi newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau a ddarperir. Mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg mewn gwasanaethau lleferydd ac iaith a rhianta. Mae cyllid o'r rhaglen integreiddio wedi cael ei ddefnyddio i greu swyddi ychwanegol a phenodi staff proffesiynol a all gyflwyno gwasanaethau ac ymdrin ag achosion cymhleth plant a theuluoedd.

6.7 Yn ogystal, mae gwell dealltwriaeth ymysg staff o lwybrau atgyfeirio ac ymwybyddiaeth o wasanaethau trydydd sector i ddangos y ffordd i deuluoedd at y cymorth mwyaf perthnasol. Law yn llaw ag ehangu dull seiliedig ar Dechrau'n Deg mewn ardaloedd peilot, mae gwasanaethau cysylltiedig, megis tai, wedi cael eu cydgysylltu er mwyn cynyddu effaith y cynllun peilot i ardaloedd a oedd i raddau

helaeth heb eu cyffwrdd gan gymorth blynyddoedd cynnar ychwanegol o'r blaen.

6.8 Yn ogystal â chynyddu cyrhaeddiad y cymorth a ddarperir, mae'r cynllun peilot wedi rhwystro staff rhag ymlâdd ac wedi galluogi staff blynyddoedd cynnar i weithio'n fwy dwys, gan fod llwythi achosion wedi cael eu rhannu mewn meysydd fel gwaith ymwelwyr iechyd. Mae presenoldeb staff ychwanegol mewn ardaloedd peilot cynlluniau braenaru wedi rhyddhau amser i ymwelwyr iechyd craidd ganolbwyntio ar faterion eithafol sy'n ymwneud â diogelu a chaethiwed i gyffuriau ac alcohol, er enghraifft.

Llai o fylchau mewn gwasanaethau

6.9 Un o egwyddorion sylfaenol y rhaglen integreiddio yw ehangu gwasanaethau, lle bo bylchau ar hyn o bryd, er enghraifft, ehangu gwasanaethau Dechrau'n Deg i ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg. Mewn rhai ardaloedd braenaru mae ymdrech wedi bod i integreiddio'r trydydd sector i ddarparu cymorth fel modd o leihau'r bylchau hyn. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel Gweithredu dros Blant, Homestart a'r Rhwydwaith Rhieni.

6.10 Roedd rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud ag ymarferion mapio yr ardaloedd lleol yn ystod y cam cynllunio yn crybwyll ei effeithiolrwydd wrth adnabod bylchau a meysydd lle'r oedd gorgyffwrdd. Mae'r cysylltu dilynol rhwng staff a theuluoedd a chael sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' mewn rhai ardaloedd hefyd wedi bod yn elfen allweddol mewn adnabod bylchau mewn gwasanaethau. Mae recriwtio staff i lenwi'r bylchau hyn wedi bod yn fecanwaith allweddol a ddefnyddiwyd gan ardaloedd braenaru.

Symleiddio llwybrau atgyfeirio

6.11 Fel yr amlinellwyd yn Adran 3, mae gwella cywirdeb atgyfeiriadau, yn ogystal â lleihau atgyfeiriadau anghyflawn neu anaddas wedi cael ei weld fel un o amcanion allweddol y rhaglen integreiddio. Mae rhanddeiliaid wedi cydnabod yn helaeth y fiwrocratiaeth ddiangen mae teuluoedd yn eu profi pan gyflwynir hwy i'r system atgyfeirio.

Felly, mae braenarwyr wedi bod yn adolygu'r amrywiol fodelau atgyfeirio i benderfynu'r ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon o osgoi dyblygu rhwng gwasanaethau a sicrhau nad yw teuluoedd "yn cael eu gadael ar ôl" yn y system. Ym maes lleferydd ac iaith, mae un ardal fraenaru wedi defnyddio cyllid i hyfforddi staff mewn lleoliadau gofal plant sut i adnabod anawsterau lleferydd ac iaith, atgyfeirio'n briodol a chyflwyno cymorth lefel-isel.

Gwella dealltwriaeth o angen/galw

6.12 Ar draws yr ardaloedd braenaru mae datblygu dealltwriaeth o'r angen a'r galw am ddull integredig o weithredu gwasanaethau blynyddoedd cynnar wedi bod yn gymharol lwyddiannus. Mae'r berthynas rhwng awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol wedi bod yn gonglfaen wrth sicrhau bod ymwybyddiaeth o le mae'r anghenion ar hyn o bryd yn yr ardaloedd braenaru perthnasol, gyda chyfathrebu rheolaidd rhwng y ddau sefydliad yn hanfodol er mwyn adnabod bylchau mewn gwasanaethau ac wedyn mynd i'r afael â'r bylchau hynny. Ar lefel weithredol, mae staff sy'n gweithio mewn iechyd wedi mynegi'r gobaith y bydd, trwy chwistrellu adnoddau ychwanegol a gwell dealltwriaeth o angen yn sgil y rhaglen integreiddio, cynnydd parhaol yn y niferoedd o staff sy'n cyflwyno gwasanaethau.

Cwmpasu, llunio a gweithredu strategaeth ehangach

6.13 Er gwaethaf ansicrwydd ynghylch parhau gweithgarwch peilot, mae'n sicr fod ymdrech ddygn wedi cael ei gwneud i yrru newid ar draws yr ardaloedd braenaru, yn enwedig ar lefel strategol. Mae mabwysiadu dull rhanbarthol o ddysgu wedi bod yn arf allweddol i amryw o ardaloedd braenaru fel modd o gwmpasu, llunio a gweithredu strategaeth ehangach. Mae hyn wedi bod yn neilltuol o amlwg ym meysydd ymwelwyr iechyd, lleferydd ac iaith a llythrennedd corfforol, lle mae ardaloedd braenaru cyfagos yn rhannu eu canfyddiadau a phenderfynu ar y camau nesaf trwy lwyfan cyfarfodydd llywodraethu rheolaidd.

6.14 Y dull a fabwysiadwyd gan rai ardaloedd braenaru oedd gweithredu ffordd adferol, seiliedig ar atebion, o weithio. Mae hyn wedi golygu datblygu gallu rhieni i uwchsgilio a rhyngweithio â'u plant, a thrwy hynny atal yr angen am gymorth yn y dyfodol mewn meysydd fel lleferydd ac iaith.

6.15 I'r ardaloedd braenaru sydd wedi gymryd rhan yng ngweithdai matrics aeddfedrwydd y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar, EIF, mae'r broses wedi gweithredu fel dull effeithiol sy'n galluogi eglurder ar y daith blynyddoedd cynnar mae braenarwyr yn dymuno ei dilyn a'r modd o gyflawni hynny. Mae rhanddeiliaid wedi datgan pwysigrwydd y matrics aeddfedrwydd wrth lunio strategaethau i'r ardaloedd braenaru ar gyfer y dyfodol.

Llwyddiannau ychwanegol

6.16 Mae'r ymwybyddiaeth gryfach ymysg teuluoedd a staff o'r gwasanaethau perthnasol sydd ar gael yn yr ardaloedd braenaru wedi bod yn arwydd cynnar clir o lwyddiant yn deillio o'r rhaglen integreiddio. Mae hyn wedi helpu osgoi dyblygu a chaniatáu ar gyfer atgyfeiriadau effeithiol rhwng gwasanaethau gan sicrhau bod gan deuluoedd fynediad at y cymorth gorau a mwyaf perthnasol sydd ar gael. Yn ogystal, mae integreiddio'r gwasanaethau newydd hyn i'r drefn blynyddoedd cynnar wedi cynyddu mynediad ac ymestyniad ac wedi lleihau bylchau mewn gwasanaethau.

6.17 Law yn llaw â'r strategaeth o gynyddu gallu rhieni, mae rhai ardaloedd braenaru wedi ceisio adeiladu gallu'r gwasanaeth ei hun fel rhan o'u strategaeth weithredu. Mae cynnwys cysylltwyr cymunedol a phresgripsiynwyr cymdeithasol, er enghraifft, wedi gweithredu fel cyfrwng rhwng gwasanaethau craidd a theuluoedd, gyda hwy'n datguddio anawsterau mae teuluoedd wedi bod yn eu profi na fyddai fyth wedi cael eu datgelu i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd.

Cynaliadwyedd

6.18 Roedd y cwestiwn a fydd y dangosyddion cynnar hyn o lwyddiant yn cael amser i ddatblygu'n llawn, a dod i'r amlwg i ddiben y gwerthusiad, yn bryder i randdeiliaid braenaru ar y lefel weithredol a strategol. Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn hyderus bod y cysylltiadau a'r rhwydweithiau a ddatblygwyd ers dechrau'r rhaglen wedi ennill eu plwyf yn ddigonol i barhau, er gwaethaf unrhyw golled mewn cyllid peilot. Fodd bynnag, mae elfen o derfynau amser sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, gyda'r gred fod y swyddi newydd a grewyd o'r weithgarwch y cynlluniau peilot yn annhebygol o gael eu cynnal pan ddaw cyllid Llywodraeth Cymru i ben. Mae pryder amlwg ymysg rhanddeiliaid ynghylch y syniad o dynnu unrhyw gymorth yn ôl oddi wrth deuluoedd yn sgil cyllid yn cael ei ddileu.

6.19 Mae ardaloedd braenaru ledled Cymru mewn graddau amrywiol o ddibyniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru, gyda rhai ardaloedd braenaru ar y naill law yn hyderus y gallant ehangu gweithgarwch peilot ar draws y fwrdeistref, boed y cyllid yn parhau neu beidio, ac eraill ar y llaw arall, yn honni na fyddent yn gallu ehangu'r gwasanaeth peilot i'r fwrdeistref ehangach hyd yn oed pe bai'r cyllid yn parhau.

Er mwyn galluogi cynaliadwyedd y rhaglen, mae ardaloedd braenaru yn canolbwyntio ar amrywiaeth o wahanol ddulliau, megis grymuso'r gymuned i fod yn hunan-gynhaliol trwy'r gwasanaethau presennol yn lle mabwysiadu rhai newydd. Mae ymestyn datblygiad a hyfforddiant gweithluoedd hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol er mwyn mwyn sicrhau bod amrywiaeth helaeth o staff yn gallu cyflwyno lefelau sylfaen o gymorth ar draws lleoliadau niferus. Mae hyn yn cynyddu rhagolygon o gynaliadwyedd y rhaglen trwy ostwng graddau o ddibyniaeth ar staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllun peilot. Mae rhai ardaloedd braenaru hefyd yn ystyried cymryd rhan mewn hyforddiant Vanguard fel modd o sicrhau ymrwymiad strategol a rhwystro "llithro'n ôl i'r hen ffyrdd o weithio."

6.20 Yn sicr, mae cydnabyddiaeth gan rai rhanddeiliaid fod dibyniaeth bresennol ar gyllid grant ymysg braenarwyr, gan rwystro unrhyw newid parhaol yn y ffordd o weithio. Maent yn dweud ei bod yn annhebygol y bydd gwasanaethau yn cael eu prif ffrydio heb fuddsoddiad sylweddol gan yr awdurdodau lleol neu'r byrddau iechyd eu hunain.

Newidiadau parhaol yn y ffordd o weithio

6.21 Er gwaethaf y bregusrwydd a fynegwyd ynghylch dibyniaeth ardaloedd braenaru ar gyllid Llywodraeth Cymru, mae cydnabyddiaeth wedi bod hefyd fod staff a theuluoedd wedi cyrraedd 'màs critigol' yn sgil y cynllun peilot a fydd yn diogelu rhai ffyrdd newydd o weithio. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae rhanddeiliaid yn hyderus y dylai'r ymwybyddiaeth gryfach o'r cymorth sydd ar gael a'r cysylltiadau agos a ddatblygwyd rhwng gwasanaethau rwystro dychweliad at ddulliau gweithio 'seilo' amrywiol sefydladiau. Bydd hyn, o'i gyfuno ag uwchsgilio staff, yn cynyddu amlder a chywirdeb atgyfeiriadau, yn ogystal â rhwystro atgyfeiriadau diangan ar draws y bwrdeistrefi braenaru.

7. Casgliadau

7.1 Mae casgliadau yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y canfyddiadau a ailadroddir dros wahanol gyfnodau'r gwerthusiad. Cafodd rhai o'r canfyddiadau eu cadarnau dros y camau o ail-ymwneud â rhanddeiliaid, tra bod eraill wedi esblygu wrth i fraenarwyr ennill mwy o brofiad. Mae'r holl ardaloedd braenaru, hyd yn oed y rhai mwyaf datblygedig yn y rhaglen, yn dal yng nghamau cynnar integreiddio, gan hunan-raddio eu hunain wrth ddefnyddio matrics y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar ar gamau lefel sylfaenol neu gynnydd cynnar.

7.2 Yr peth gorau yw creu gweledigaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyn gynted â phosibl. I fod yn effeithiol mae angen edrych yn feirniadol ar y gweithredu presennol a chynnwys amrywiaeth helaeth o uwch-randdeiliaid. Mae'r ardaloedd braenaru sydd wedi gwneud hyn wedi osgoi agweddau amddiffynnol gan asiantaethau penodol, creu cyd-ddealltwriaeth o anghenion plant bach a theuluoedd, ac mae ganddynt well cydweithio rhwng gwasanaethau awdurdod lleol a gwasanaethau iechyd.

7.3 Caiff nodau ac amcanion y rhaglen eu deall gan y braenarwyr oherwydd eu bod yn gydnaws ag anghenion darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Cynorthwyir hyn gan gyd-ganlyniadau'r holl raglenni blynyddoedd cynnar sy'n gwneud rhesymoli'r gwasanaethau presennol yn rhywbeth i'w ddeisyfu. Effeithir yn negyddol ar ymrwymiad wrth orfod cystadlu yn erbyn blaenoriaethau a thargedau eraill o fewn ardaloedd braenaru. Mae cydgysylltydd yr ardal fraenaru yn chwarae rhan bwysig wrth oresgyn y rhwystrau hyn, tasg a wneir yn symlach os yw'r ardal fraenaru wedi cael profiad cadarnhaol blaenorol o raglenni tebyg.

7.4 Ar wahân i ddisgrifiad cyffredinol iawn, nid oes theori wedi ei mynegi ar gyfer y rhaglen ac mae awydd gan rai am ganllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru. Mae eraill wedi gweld y rhyddid i ddatblygu eu dulliau eu hunain fel cryfder. Mae dull seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ddatblygu trwy wahanol brosesau gan gynnwys Vanguard,

cyfarfodydd ‘bowlen bysgod’, gwaith llunio gweledigaeth a mapio gwasanaethau. Mae’r prosesau mwy ffurfiol wedi arwain at gymryd camau pellach tuag at integreiddio o gymharu ag ardaloedd braenaru nad ydynt wedi dilyn prosesau o’r fath.

7.5 Mae’r dybiaeth fod graddau uwch o angen ymysg teuluoedd nad ydynt yn ymwneud â’r rhaglenni presennol wedi cael ei dangos i fod yn gywir. Mae’r rhaglen wedi herio’n llwyddiannus dybiaethau ynghylch bod integreiddio’n cynyddu costau, colli gwasanaethau i deuluoedd trwy symleiddio, diffyg canlyniadau cadarnhaol, a’r gred fod dull seilo o weithio wedi ymwreiddio’n rhy ddwfn yn y sector blynyddoedd cynnar.

7.6 Mae gweithredu’r rhaglen yn effeithiol mewn gweithgareddau peilot yn dibynnu ar ymrwymiad gan uwch reolwyr a staff gweithredol. Nid yw ardaloedd braenaru sydd wedi sicrhau hyn wedi cael fawr o anhawster wrth ad-drefnu gwasanaethau i asesu anghenion pawb o fewn ardaloedd lleol a threfnu systemau ar gyfer rhannu atebion rhwng asiantaethau. Caiff gweithredu’r rhaglen ei lesteirio gan bresenoldeb rhaglenni lluosog blynyddoedd cynnar yn gweithredu’n gyfochrog i’w gilydd a natur dros-dro bresennol y rhaglen integreiddio.

7.7 Mae’r Coronafeirws (COVID-19) wedi llesteirio cynnydd yn sylweddol, felly mae gweithgarwch cynlluniau peilot yn dal yn y camau cynnar, ar ôl bod yn gweithredu am ychydig fisoedd yn unig. Maent i gyd bellach yng ngham gweithredu cynllun y prosiect ac yn dysgu trwy’r gweithgareddau peilot. Er ei bod yn rhy gynnar i weld dull integredig yn cael ei wireddu’n llawn, mae arwyddion o wireddu effeithlonrwydd, symleiddio gwasanaethau, ac atgyfeiriadau. O fewn ardaloedd braenaru mae mwy o ymwybyddiaeth o anghenion teuluoedd ac, yn bennaf o fewn ardaloedd peilot, mae gwybodaeth o’r ffordd orau o fynd i’r afael â hwy mewn ffordd fwy integredig. Mae’r wybodaeth hon wedi ymwreiddio ymysg rhai ac mae’n debygol o oroesi gweithgarwch y cynllun peilot.

8. Argymhellion

8.1 Mae profiad naw bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yr ardaloedd braenaru yn eu blynyddoedd cynnar ar eu taith integreiddio wedi arwain at amryw o argymhellion ynghylch ehangu'r rhaglen yn y dyfodol, sy'n berthnasol i ardaloedd braenaru newydd, ac ardaloedd braenaru presennol sy'n ymestyn eu cynllun peilot i'r fwrdeistref neu ranbarth ehangach.

8.2 Er yn cydnabod egwyddorion gwerthusiad realyddol (gweler y fethodoleg) mae rhai argymhellion yn rhai penodol i'w cyd-destun ac yn berthnasol i rai ardaloedd braenaru penodol, mae hefyd amryw o argymhellion y gellir eu gweithredu'n genedlaethol. Er mwyn deall yn llawn y sail resymegol y tu ôl i'r argymhellion a wnaed gan randdeiliaid braenaru, mae angen tynnu sylw ac archwilio'r rhwystrau a'r heriau, yn ogystal â'r canlyniadau anfwriadol a brofodd yr ardaloedd braenaru.

Cyd-destun y rhaglen gyfan

Heriau a rhwystrau

8.3 Mae amryw o rwystrau cysylltiedig wedi bod i ardaloedd braenaru ar eu taith integreiddio. Mae chwalu'r ffyrdd arferol o weithio a pherswadio gweithwyr proffesiynol prif ffrwd i weithio'n wahanol o fewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar wedi profi'n neilltuol o anodd. Yn achos ymwelwyr iechyd a bydwragedd ar draws yr ardaloedd braenaru, mae anfodlonrwydd i rannu eu llwythi achosion a chyflwyno atgyfeiriadau i gymorth a gyllidir gan y cynllun braenaru. Yn wir, mae'r ffaith fod bydwreigiaeth yn gweithio ar fodel sy'n un meddygol i raddau helaeth yn heriol, gan fod eu pwyslais yn bennaf ar iechyd y fam. Nid oes ganddynt yr adnoddau i symud eu sylw at lesiant ehangach y fam, y baban embryonig a'r teulu ehangach trwy adnabod ac ymyrryd cynnar. O ganlyniad, maent yn fwy anodd i ennyn eu hymrwymiad a'u integreiddio yn rhan o dîm mwy. Mae gwahaniaethau mewn prosesau casglu data a diffyg rhannu

gwybodaeth mewn modd cynhwysfawr rhwng gwasanaethau bydwragedd ac ymwelwyr iechyd wedi gwaethygu'r broblem hon.

8.4 Mewn rhai ardaloedd braenaru mae anhawster wedi bod wrth gyd-drafod â sefydliadau y tu allan i'r ardal beilot, a lesteiriwyd yn rhannol gan yr anallu i gyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r sefydliadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gwaith a gyflawnir ac wedyn hyrwyddo'r gwasanaeth a gynigir.

8.5 Mae capasiti staff blynyddoedd cynnar hefyd wedi profi i fod yn her. Mae diwallu galwadau ychwanegol y ffordd newydd hon o weithio, ar ben y llwythi gwaith arferol yn yr un faint o amser wedi profi'n anodd i staff sy'n gweithio ar lawr gwlad. Canlyniad hyn yn aml oedd mai amser cyfyngedig a oedd gan staff i'w neilltuo i dreialu integreiddio, gan hefyd ddarparu i'r teuluoedd yn yr ardal honno.

8.6 Mae'r cysyniad o ddefnyddio system TG ar y cyd gydag un ffeil i bob teulu, a gaiff ei rhannu rhwng y gwahanol wasanaethau yn cynnig rhagolygon cyffrous i ardaloedd braenaru ac mae gan hyn y potensial i fod yn alluogydd anferthol er mwyn cyflawni yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r defnydd presennol o wahanol systemau TG ar draws gwahanol sefydliadau yn rhwystr. Mae anawsterau wedi bod gyda rhannu gwybodaeth trwy system TG y gwasanaeth iechyd, a hyd yn oed achosion o staff a gyflogir gan y bwrdd iechyd ond wedi eu secondio i awdurdod lleol yn defnyddio system TG yr awdurdod lleol hwnnw. Mae rhai ardaloedd braenaru wedi ceisio goresgyn yr anawsterau hyn trwy gael protocol rhannu gwybodaeth, gyda chymeradwyaeth rhieni, yn ogystal â cheisio datblygu system TG sy'n cydgysylltu â systemau eraill, ond mae oedi wedi bod wrth ddefnyddio'r olaf. Argymhelliad sy'n deillio o hyn ar gyfer ardaloedd braenaru newydd felly yw sicrhau bod systemau TG cydweddol ar waith, fel y gall pawb sy'n ymwneud â blynyddoedd cynnar gael mynediad o'r cychwyn.

Canlyniadau anfwriadol

8.7 Mae effeithiau'r pandemig Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio'n helaeth ar daith integreiddio'r ardaloedd braenaru ac ar weithredu gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Ar ôl siarad gyda nifer helaeth o randdeiliaid ar lefel weithredol a strategol, mae'r canlyniadau anfwriadol o'r argyfwng wedi bod yn rhai cadarnhaol a negyddol.

8.8 Mae'r ffordd rithiol o weithio sydd wedi deillio o'r Coronafeirws (COVID-19) wedi cynyddu hygyrchedd a diddordeb mewn llawer achos i'r ardaloedd braenaru. Mae wedi galluogi staff i fod yn bresennol a chymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n amrywio o weithdai strategaethau i hyfforddiant lleferydd ac iaith i staff gofal plant a meithrinfeydd[31], heb orfod teithio. Mae wedi cael gwared ar y ffiniau daearyddol ar draws yr ardaloedd braenaru gan arwain at well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau gwasanaethau eraill.

8.9 Canlyniad cadarnhaol arall fu hyblygrwydd staff yn wyneb y pandemig. Dros y deuddeng mis diwethaf, mae sefydliadau blynyddoedd cynnar wedi bod yn meddwl yn helaeth sut i gyd-drafod â rhieni a theuluoedd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu presenoldeb ar-lein trwy sgyrsiau fideo rhithiol, lle gall staff sylwi ar blant yn chwarae a rhyngweithio gyda rheini yn lleoliad y cartref. I rai rhieni, mae wedi bod yn well ganddynt ymwneud yn rhithiol na derbyn cymorth wyneb yn wyneb, gan ei fod yn cael gwared ar yr angen am ofal plant ac y gall beri llai o ofn na mynd i gyfarfod grŵp.

8.10 Er gwaethaf hyn, roedd bron bawb o'r staff gweithredol yn mynegi cyswllt wyneb yn wyneb â theuluoedd fel y ffordd orau o ymwneud â hwy yn y mwyafrif o achosion. Yn ogystal, er bod Coronafeirws (COVID-19) wedi lleihau'r rhwystrau daearyddol i staff sy'n dilyn hyfforddiant, mae wedi rhwystro hyfforddwyr lleferydd ac iaith a

[31] Er yn cydnabod y gall ansawdd yr hyfforddiant ddioddef wrth gael ei gyflawni'n rhithiol, mae wedi galluogi ymarferwyr i chwarae mwy o ran gan nad oes angen iddynt deithio i ddilyn hyfforddiant.

llythrennedd corfforol rhag arsylwi staff yn rhoi'r hyfforddiant ar waith mewn lleoliadau byd go-iawn.

8.11 Mae Coronafeirws (COVID-19) yn ddiamheuol wedi effeithio ar gapasiti ac adnoddau staff ar draws yr ardaloedd braenaru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwasanaethau wedi profi lefelau anwadal o brinder staff, naill ai trwy salwch a/neu warchod. Mae hyn wedi arwain at y staff sydd ar ôl yn gorfod ymestyn i ardaloedd a llwythi achosion y maent yn anghyfarwydd â hwy. Ynghyd â'r anallu i ymwneud wyneb yn wyneb â theuluoedd, mae hyn wedi cael effaith sy'n iselhau ysbryd staff.

8.12 Cafodd pwysigrwydd y gweithdai braenaru cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru ei amlygu gan randdeiliaid strategol fel broses ddefnyddiol yn ystod y daith integreiddio. Roedd gwerth y gweithdai yn ymwneud â'r ffaith eu bod yn cynnig fforwm ar gyfer cyfathrebu rhwng y gwahanol ardaloedd braenaru, gwirio graddau eu cysondeb, yn ogystal â rhoi cyfle i drafod y themâu a'r rhwystrau cyffredin sy'n codi yn y gwahanol ardaloedd. Yn eu habsenoldeb (yn sgil Coronafeirws (COVID-19)), mae braenarwyr wedi colli'r dysgu ar y cyd rhyngddynt â'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Argymhellion ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ardaloedd braenaru penodol

Mapio'r ardal leol ar y cam cynllunio

8.13 Yn ystod camau cynnar y rhaglen blynyddoedd cynnar, roedd rhanddeiliaid yn crybwyll yr angen am i integreiddio gael ei gynllunio ar y lefel y caiff ei gyflwyno, gan adeiladu o'r llawr i fyny ar sylfeini sy'n bod eisoes. Mae hyn yn golygu darganfod pa wasanaethau sy'n bod eisoes yn yr ardal leol a phenderfynu pa asiantaethau a phartneriaid all weithio gyda'r cynllun braenaru.

8.14 Cafodd mapio proffil y gymuned leol ei grybwyll fel proses bwysig wrth ystyried graddfa'r newid y bydd y gymuned yn gallu dygymod â hi. Yn ogystal, dylai fod, yn ogystal ag adnabyddiaeth o'r hyn sydd ar gael ar

hyn o bryd, ddealltwriaeth drylwyr hefyd o'r hyn ddylai'r nod terfynol fod, gan weithio'n addas at y nod uchelgeisiol hwnnw.

Sicrhau ymrwymiad ar draws sefydliadau

8.15 O safbwynt sicrhau ymrwymiad, mae'n allweddol dangos yn gynnar y bydd y ffordd newydd hon o weithio yn well am ddiwallu anghenion gwasanaethau blynyddoedd cynnar a'r teuluoedd maent yn eu cefnogi. Roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd brwdfrydedd y rheini sy'n ymwneud yn y gwaith braenaru wrth sicrhau llwyddiant ac yn argymell cael cyfarfodydd gyda'r partneriaid allweddol ar y cam cynnar hwn i gael dealltwriaeth o rôl pob sefydliad wrth symud ymlaen. Dylai hyn gynnwys cymysgedd o bobl a rheolwyr ar draws ac o fewn yr holl wasanaethau o dan y bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector. Yn ogystal, o ran llywodraethu'r rhaglen, awgrymwyd y gellid defnyddio grwpiau sy'n bod eisoes a phenodi rhywun i gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau terfynol er mwyn osgoi dyblygu a dryswch ynghylch awdurdodaeth.

8.16 Yn ogystal â sicrhau ymrwymiad ar y lefelau gweithredol a strategol, roedd amryw o randdeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd herio tybiaethau ynghylch y sail resymegol dros y ffyrdd presennol o weithio a beth sydd ar deuluoedd ei angen a'i eisiau o gymorth blynyddoedd cynnar. Cafodd hyfforddiant Vanguard ei grybwyll fel dull effeithiol o herio staff i wir ddeall profiadau teuluoedd.

Canllawiau Llywodraeth Cymru

8.17 Roedd rhai ardaloedd braenaru yn mynegi angen am ganllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru o safbwynt y cyllid grant sydd ar gael i leihau'r risg mewnol o weithredu newid sylweddol a chaniatáu ar gyfer cynllunio mwy hirdymor. Mae galwadau wedi bod hefyd am fuddsoddi hirdymor trwy ariannu cynaliadwy i oresgyn y rhwystrau a grybwyllwyd eisoes. Mae'r anghysondeb blaenorol a'r oedi gyda chyllid blwyddyn-ar-flwyddyn wedi peri rhwystredigaeth i fraenarwyr gan eu bod yn teimlo bod 'symud y pyst gôl' fel hyn wedi lleihau eu gallu ymarferol i brofi'r model, tra bod disgwyl iddynt gyflawni'r un canlyniadau. Law yn

llaw â hyn, mae rhwystredigaeth wedi bod ynghylch y graddfeydd amser byr ar gyfer y gwerthusiad, gydag ardaloedd braenaru yn teimlo'u bod yn cael eu rhuthro i weithredu newidiadau a cheisio dangos tystiolaeth o ganlyniadau yn rhy gyflym. Mae galwadau wedi bod hefyd am fwy o gysondeb a chyfarwyddyd strategol ar sut i sicrhau bod rhaglenni sy'n ymwneud â darpariaeth blynyddoedd cynnar yn cydgyfeirio â'i gilydd ar lefel genedlaethol.

Egluro cwmpas newid

8.18 Mae rhai ardaloedd braenaru wedi galw am fwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch gweledigaeth a diben y rhaglen integreiddio, gyda galwadau am fwy o bwyslais ar weithredu mesurau ataliol, yn hytrach nag ychwanegu capasiti at y gwasanaethau presennol.

8.19 Yn sicr, mae graddau o anghytundeb yn yr hyn mae ardaloedd braenaru yn ei argymell ynghylch beth ddylai ffurfio nodau ac amcanion craidd y rhaglen. Mae rhai braenarwyr yn dadlau dros ddiwygio llwyr ac uchelgeisiol y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau, *"meddwl am newid mawr – nid mân addasiadau yn unig …"* (Rhanddeiliad strategol, 2021), tra bod eraill yn argymell gosod amcanion ar raddfa lai, a mwy cyraeddadwy, gan gulhau pwyslais y blynyddoedd cynnar er mwyn rhoi eglurder a chyfeiriad.

8.20 Er ei bod yn bwysig cydnabod bod 'cyd-destun yn bwysig', ac o ganlyniad, y bydd ardaloedd braenaru yn amrywio yn y ffordd maent yn gweithredu'r newidiadau, mae'n hanfodol fod unffurfiaeth yn y ddealltwriaeth o'r nodau a'r amcanion.